



Gwasanaeth Democraidd
Democratic Service
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

PWYLLGOR IAITH
LANGUAGE COMMITTEE

10.30AM, DYDD IAU, 17 IONAWR, 2013

10.30AM, THURSDAY, 17 JANUARY, 2013

Lleoliad / Location

**YSTAFELL GLYDER FAWR, SWYDDFA ARFON,
PENRALLT, CAERNARFON,**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

EIRIAN ROBERTS

(01286) 679018

maireirianroberts@gwynedd.gov.uk

(DOSBARTHWYD / DISTRIBUTED 9/01/13)

PWYLLGOR IAITH LANGUAGE COMMITTEE

AELODAETH/MEMBERSHIP (15)

Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr/Councillors

Craig ab Iago

Elwyn Edwards

Alan Jones Evans

Dyfrig Jones

Liz Saville Roberts

Mair Rowlands

Gareth Thomas

Mandy Williams-Davies

Annibynnol/Independent (4)

Y Cynghorwyr/Councillors

Tom Ellis

Eric M.Jones

Eirwyn Williams

Elfed Williams

Llais Gwynedd (3)

Y Cynghorwyr/Councillors

Gweno Glyn

Alwyn Gruffydd

Gruffydd Williams

Aelodau Ex-officio/Ex-officio Members

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor / Council Chairman and Vice-chairman

RHAGLEN

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Hydref, 2012 fel rhai cywir (copi yma – papur eog).

5. CYFLWYNIAD I WAITH COMISIYNYDD Y GYMRAEG

Derbyn cyflwyniad gan Gomisiynydd y Gymraeg.

6. CYFRIFIAD 2011: CANLYNIADAU CYNTAF AR YR IAITH GYMRAEG

Ystyried adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith (copi yma – papur glas).

7. CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG

Ystyried adroddiad y Pennaeth Addysg (copi yma – papur melyn).

8. CWYNIION IAITH

Ystyried adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith (copi yma – papur lelog).

PWYLLGOR IAITH, 11.10.12

Yn bresennol: Y Cynghorydd Liz Saville Roberts (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Gweno Glyn (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr: Craig ab Iago, Tom Ellis, Alan Jones Evans, Alwyn Gruffydd, Eric M.Jones, Elfed Williams, Gruffydd Williams a Mandy Williams-Davies.

Swyddogion: Sion Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith), Ruth Richards (Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

Sylwedydd: Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet – Gofal Cwsmer).

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, Selwyn Griffiths, Mair Rowlands, Gareth Thomas ac Eirwyn Williams; Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol).

1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

2. MATERION BRYS

(1) Y Ddeddf Diwygio Lles

Cyflwynwyd – drafft o lythyr gan Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol, at Gomisiynydd y Gymraeg:-

- Yn datgan pryder y bydd y newidiadau arfaethedig i'r gyfundrefn budd-daliadau yn golygu y bydd llai o gyfle i drigolion Gwynedd ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud â'r broses o dderbyn budd-dal.
- Yn galw am drafod y pryderon hyn gyda hi a chael clywed beth yw ei phryderon hi yn hyn o beth.
- Yn gofyn am fwy o wybodaeth ynglŷn â pha ofynion sydd ar yr Adran Gwaith a Phensiynau i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg, naill ai dan unrhyw Gynllun Iaith presennol neu o dan y Safonau Iaith arfaethedig.
- Yn galw am gydweithio â hi i geisio dylanwadu ar yr Adran Gwaith a Phensiynau i hyrwyddo cymaint â phosibl ar y Gymraeg wrth roi'r gyfundrefn newydd ar waith.

Gofynnwyd am sylwadau'r pwyllgor ar gynnwys y llythyr.

Mynegwyd pryder bod unrhyw rymoedd sydd gan Gomisiynydd y Gymraeg wedi'u cyfyngu i faterion sydd wedi'u datganoli ac y dylid mynnu bod y Comisiynydd yn galw am adfer y grymoedd oedd gan y Bwrdd Iaith gynt dros bob corff cyhoeddus sy'n weithredol yng Nghymru.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r llythyr drafft a'i anfon yn enw'r Pwyllgor Iaith a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol.

(2) Hyrwyddwr y Gymraeg Mewn Ysgolion

Gofynnwyd i'r pwyllgor gefnogi bid y Gwasanaeth Ysgolion i'r Cyngor ariannu hanner swydd Hyrwyddwr y Gymraeg Mewn Ysgolion Cynradd.

Eglurwyd y derbyniwyd arian trwy law Llywodraeth Cymru am hanner y swydd, ac er y rhagdybiwyd yn wreiddiol mai'r ysgolion fyddai'n cyfarfod â gweddill y gost, 'roedd y Gweithgor a sefydlwyd i lunio'r Siarter Iaith i Ysgolion o'r farn y dylai'r arian ddod o goffrau corfforaethol y Cyngor gan mai un o brif nodau ac amcanion Cyngor Gwynedd yw hyrwyddo a gwarchod y Gymraeg. Gan hynny, 'roedd y Pennaeth Ysgolion wedi cyflwyno bid i'r Cyngor am weddill yr arian ac 'roedd y Gweithgor yn awyddus i sicrhau cefnogaeth y Pwyllgor Iaith i hynny.

PENDERFYNWYD rhoi cefnogaeth unfrydol i fid y Gwasanaeth Ysgolion am arian o goffrau corfforaethol y Cyngor i ariannu hanner swydd Hyrwyddwr y Gymraeg Mewn Ysgolion Cynradd.

3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 28 Mehefin, 2012 fel rhai cywir.

Mater yn codi o'r cofnodion

Eitem 6 – Adroddiad Monitro Cynllun Iaith 2011/12

Gofynnodd y Cadeirydd am osod eitem ar raglen y Pwyllgor Iaith i dderbyn cyflwyniad ar waith y Pencampwyr Iaith yn y Canolfannau Hamdden.

4. ENWAU SAFONOL STRYDOEDD, TAI A LLEOEDD

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith yn cyflwyno gwybodaeth gefndir am y maes yn unol â chais y pwyllgor hwn yn eu cyfarfod diwethaf.

Gan gyfeirio at ymchwiliad Comisiynydd y Gymraeg i achos yn ymwneud â'r defnydd o gyfeiriadau Cymraeg (paragraff 1.8 o'r adroddiad), nododd y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith fod y Comisiynydd bellach wedi cadarnhau ei bod yn fodlon bod y Cyngor yn cydymffurfio â'i Gynllun Iaith.

Nododd ymhellach y derbyniwyd llythyr gan Glerc Cyngor Tref Pwllheli yn gofyn i'r Cyngor hysbysu pob pennaeth gwasanaeth o'r gofyn i ddefnyddio'r ffurfiau Cymraeg o enwau strydoedd ac i gysylltu â'r Swyddfa Bost a BT gan geisio dwyn perswâd arnynt hwythau i arddel y fersiynau Cymraeg yn hytrach na'r Saesneg.

Gofynnwyd i'r swyddogion holi ynglŷn â'r posibilrwydd o ddefnyddio'r enwau Cymraeg yn unig ar arwyddion stryd yn y dyfodol.

Nodwyd nad oedd modd rhoi arwydd ar ffordd sy'n dilyn o ffordd arall ar hyn o bryd a bod llawer o'r hen enwau Cymraeg yn cael eu colli o ganlyniad i hynny.

PENDERFYNWYD

- (a) **Bod aelodau'r pwyllgor hwn yn dwyn sylw at unrhyw esiamplau penodol o enwau di-Gymraeg ar nodweddion daeryddol yn eu hardaloedd.**
- (b) **Gwahodd cynrychiolydd o Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru i gyfarfod â'r pwyllgor i sôn mwy am waith y sefydliad ac i drafod sut y gall y Cyngor eu cynorthwyo.**

- (c) **Atgoffa pob pennaeth gwasanaeth o'r gofyn i ddefnyddio'r ffurfiau Cymraeg o enwau strydoedd.**
- (ch) **Cysylltu â'r Swyddfa Bost a BT gan geisio dwyn perswâd arnynt hwythau i arddel y fersiynau Cymraeg o enwau strydoedd.**
- (d) **Gwneud ymholiadau erbyn y cyfarfod nesaf ynglŷn â'r posibilrwydd o ddefnyddio'r enwau Cymraeg yn unig ar arwyddion stryd yn y dyfodol.**

5. **YMATEB COMISIYNYDD Y GYMRAEG I ADRODDIAD MONITRO IAITH BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD 2011-12**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith yn cyflwyno sylwadau'r Comisiynydd ar Adroddiad Monitro Iaith Blynyddol Cyngor Gwynedd 2011-12 ynghyd ag ymateb y Cyngor i'r cais am ragor o wybodaeth ar agweddau o'r adroddiad.

Rhoddyd sylw penodol i'r materion a ganlyn:-

(i) D.1 – Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Sgiliau Iaith

PENDERFYNWYD anfon neges at y Pennaeth Adnoddau Dynol yn datgan fod y pwyllgor yn awyddus i weld y gronfa ddata ar gyfer cofnodi sgiliau iaith staff mewn lle cyn Mawrth 2014 ac adrodd yn ôl ar yr ymateb i'r cyfarfod nesaf.

(ii) 5.A – Nifer y swyddogion di-Gymraeg a benodwyd i swyddi 'Cymraeg Hanfodol' a'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant iaith

Holwyd pa adran(nau) oedd wedi penodi'r 2 swyddog nad oedd yn cyrraedd gofynion ieithyddol eu swyddi. Cytunodd y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith i wneud ymholiadau ac adrodd yn ôl.

(iii) 5.B – Nifer y staff sy'n siarad Cymraeg a chyfanswm aelodau staff yr adrannau

Sylwyd bod yr amcangyfrif o ganran y siaradwyr Cymraeg yn yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden yn llawer is na'r adrannau eraill. Nodwyd ei bod yn anodd denu siaradwyr Cymraeg i rai swyddi yn y meysydd hynny a bod llawer o'r gwasanaethau a ddarperir gan yr adran yn cael eu preifateiddio. Holwyd a oedd modd targedu pobl ifanc sy'n cychwyn meddwl am eu llwybr gyrfa drwy eu hannog i ystyried cyrsiau yn y meysydd hyn.

PENDERFYNWYD edrych yn fanylach pam bod y ffigurau'n isel yn yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden.

(iv) B.2 – Cyd-ddarparu rhai gwasanaethau arbenigol ar gyfer plant

Mynegwyd y farn bod y ddogfen interim 'Canllawiau Iaith' (Atodiad 3 i'r adroddiad) yn tramgwyddo Cynllun Iaith Gwynedd. Pwysleisiwyd na ddylid cydsynio i unrhyw beth sy'n tanseilio Cynllun Iaith y Cyngor hwn, ac mewn sefyllfa o wrthdaro rhwng dau gynllun iaith, dylid defnyddio'r cryfaf ohonynt.

PENDERFYNWYD anfon sylwadau'r pwyllgor at Fwrdd Rheoli Derwen, drwy gysylltu'n gyntaf â'r Rheolwr Gwasanaeth, Tîm Integredig Plant Anabl, ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

(v) D.3 – Sesiynau ymwybyddiaeth iaith i staff rheng flaen nad ydynt yn staff gofal neu weithwyr ieuencid

Nodwyd y dylid ceisio dwyn perswâd ar bobl i fynychu'r sesiynau hyn. Nododd y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith mai ond yn ddiweddar iawn y gosodwyd dyddiadau ar gyfer y sesiynau hyn ac y byddai'n cael gair gyda'r Uned Hyfforddi maes o law er mwyn gweld pa fath o ymateb a gafwyd o ran niferoedd.

PENDERFYNWYD derbyn ymateb Comisiynydd y Gymraeg i Adroddiad Monitro Iaith Blynyddol Cyngor Gwynedd 2011-12 ac ymateb y Cyngor i'r cais am ragor o wybodaeth ar agweddau o'r adroddiad.

6. CWYNIION IAITH

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith yn manylu ar y cwynion iaith diweddaraf i law yn erbyn y Cyngor, cwynion yn ymwneud â chyrrff eraill ac amrywiol faterion eraill perthnasol.

Rhodddwyd sylw penodol i'r materion a ganlyn:-

(i) Cyfarwyddyd uniaith Saesneg ar groesfan newydd ar ffordd osgoi Porthmadog

Awgrymodd y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith ei bod bellach yn amserol i gyfeirio'r mater hwn ymlaen at Gomisiynydd y Gymraeg gan na dderbyniwyd ymateb cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru.

(ii) Y defnydd o'r geiriad 'gwastraff cŵn' ar finiau'r Cyngor

Argymhellwyd mai'r geiriad 'baw cŵn' ddylid ei ddefnyddio ar finiau'r Cyngor, ac na dderbynnid datganiad yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol mai 'gwastraff cŵn' oedd y geiriad safonol.

PENDERFYNWYD cyfeirio'r mater i sylw Uned Gyfieithu Llywodraeth Cymru ac Uned Gyfieithu'r Cyngor am farn.

(iii) Ffurflen Trwyddedu Digwyddiadau Uniaith Saesneg

PENDERFYNWYD defnyddio'r fersiwn Gymraeg answyddogol o'r ffurflen hyd oni dderbynnir arweiniad pellach gan Gomisiynydd y Gymraeg.

(iv) System hidlo negeseuon electronig mewnol uniaith Saesneg

PENDERFYNWYD adrodd yn ôl i'r pwyllgor hwn ar ganlyniadau ymdrechion y Gwasanaeth Gofal Cwsmer i geisio datrysiaid i'r broblem gyda'r cwmni.

(v) Methiant i ddarparu cyfweiliad drwy gyfrwng y Gymraeg

PENDERFYNWYD anfon neges at yr holl bennaethiaid yn eu rhagrybuddio o'r hyn all ddigwydd os nad ydynt yn trefnu cyfweiliadau trwy gyfrwng y Gymraeg.

(vi) Arwydd WC ar yr A487, Porthmadog

Pwysleisiwyd yr angen i gadw golwg ar y mater hwn.

(vii) Yr angen i adolygu'r polisiâu cynllunio cenedlaethol fel y rhoddir mwy o ystyriaeth i'r angen i gael arwyddion yn y Gymraeg ar ddatblygiadau manwerthu

PENDERFYNWYD anfon llythyr at Leighton Andrews, AC, Y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn gofyn iddo gadarnhau rôl Comisiynydd y Gymraeg yn y cyd-destun yma ac i bwysu am sicrwydd o'r grym yma.

(viii) Bysus Padarn

PENDERFYNWYD gofyn i'r Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith drafod trefniadau'r cyfarfod gyda'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.

Codwyd y materion ychwanegol a ganlyn gan aelodau:-

(i) Marchnad Caernarfon

Nodwyd bod marchnad Caernarfon yn arddangos arwyddion uniaith Saesneg.

PENDERFYNWYD gofyn i'r Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith edrych pa bwerau sydd gan y Cyngor yng nghyswllt achosion o'r fath.

(ii) Ffurflenni CRB Uniaith Saesneg

Nododd aelod fod ffurflen CRB y gofynnwyd iddo'i llenwi'n ddiweddar yn rhinwedd ei swyddogaeth fel llywodraethwr Ysgol Bro Hedd Wyn, Trawsfynydd, yn uniaith Saesneg.

PENDERFYNWYD bod y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith yn cael y manylion llawn gan yr aelod ac yn edrych i mewn i'r mater.

(iii) Tystysgrifau Nofio Uniaith Saesneg ym Mhwll Nofio Blaenau Ffestiniog

Nodwyd bod plant wedi bod yn derbyn tystysgrifau nofio uniaith Saesneg ym Mhwll Nofio Blaenau Ffestiniog.

Atebodd y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith ei bod yn credu bod y mater hwn wedi'i ddatrys, ond y byddai'n gwirio hynny gyda'r Uwch Reolwr Gweithredol, Darparu a Hamdden.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.10pm.

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	IONAWR 17 2013
TEITL:	CYFRIFIAD 2011: CANLYNIADAU CYNTAF AR YR IAITH GYMRAEG
AWDUR:	SWYDDOG CYDRADDOLDEB AC IAITH
PWRPAS YR ADRODDIAD:	ER GWYBODAETH

1. Cefndir

- 1.1. Cynhaliwyd y Cyfrifiad ar 27 Mawrth 2011, ac mae'r canlyniadau'n ffynhonnell allweddol o wybodaeth am yr iaith Gymraeg: Yn wir data'r Cyfrifiad yw'r dystiolaeth gadarnaf sydd gennym am sefyllfa'r iaith.
- 1.2. Ar gyfer Cyfrifiad 2011, gofynnwyd y cwestiwn, "A allwch ddeall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?" – ac roedd modd ateb drwy dicio un neu ragor o bum blwch (un i bob categori ac un ar gyfer "Dim un o'r rhain") mewn unrhyw gyfuniad.
- 1.3. Cyhoeddwyd y canlyniadau cyntaf o Gyfrifiad 2011 ar yr iaith Gymraeg ar Ragfyr 11 2012, a gweler isod rhai o'r canlyniadau allweddol i Gymru ac i Wynedd.

2. Canlyniadau Allweddol ar Gyfer Cymru

- 2.1. Rhwng 2001 a 2011, roedd gostyngiad yn nifer a chanran y bobl 3 oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg yng Nghymru. Roedd y gostyngiad hwn yn ganlyniad newidiadau demograffig (e.e. llai o blant, mwy o oedolion hŷn, a cholled carfannau hŷn gyda lefelau uwch o siaradwyr Cymraeg), pobl yn mudo, a newidiadau o ran sgiliau pobl rhwng y ddau Gyfrifiad.
- 2.2. Cafwyd gostyngiad yng nghyfran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg o 20.8% yn 2001 i 19.0% yn 2011 (gostyngiad o 1.7 pwnt canran). Er gwaethaf cynnydd ym maint y boblogaeth, roedd gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg o 582,000 yn 2001 i 562,000 yn 2011. Dylid nodi fodd bynnag bod nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn 2011 yn uwch na'r ffigur gyfatebol ar gyfer 1991 (18.7% a 508,000 o bobl).
- 2.3. Roedd y gwahaniaethau rhwng 2001 a 2011 yn amrywio yn ôl grŵp oedran- gyda chynnydd sylweddol o ran plant iau (3-4 oed), rhywfaint o gynnydd o ran oedolion 20-44 oed, a gostyngiad yn y grwpiau oedran eraill.

- 2.4. Roedd gostyngiad yng nghyfran y bobl 3 oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg i'w weld bron ym mhob un o'r awdurdodau lleol. Gwelwyd y gostyngiadau mwyaf yn yr ardaloedd lle'r oedd y cyfrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg. Yn Sir Gaerfyrddin gwelwyd y pwynt canran yn disgyn fwyaf - o 50.3% yn 2001 i 43.9% yn 2011 (gostyngiad o 6.4 pwynt canran).

3. Canlyniadau Allweddol ar Gyfer Wynedd

- 3.1 Mae nifer y siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd wedi gostwng o 77,846 i 77,000 rhwng 2001 a 2011. Mae'r gostyngiad hwn o 846 o unigolion yn gyfystyr a gostyngiad o 1.1% yn nifer siaradwyr Cymraeg y Sir. Rhwng 2001 a 2011, gwelwyd cynnydd o oddeutu 5,000 ym mhoblogaeth y sir – sef cynnydd o 4.4%. O ystyried y cynnydd hwn yn y boblogaeth, mae'r ganran o bobl Gwynedd sy'n siarad Cymraeg wedi gostwng o 69% i 65.4% (gostyngiad o 3.6 pwynt canran).
- 3.2. Er bod yna le i bryderu am y ffigyrau yma, dylid cofio fod y gostyngiad yn nifer a chanran siaradwyr Cymraeg yn is yng Ngwynedd na rhai o gadarnleoedd eraill yr iaith e.e. Caerfyrddin a Cheredigion (gweler 2.4.) uchod).
- 3.3. O edrych ar y tueddiadau fesul grŵp oedran, gwelwn ostyngiad o 1,430 yn y nifer o blant 3-15 oed sy'n gallu siarad Cymraeg (gostyngiad o 8.7%). Er hynny, mae'r canran o'r holl boblogaeth 3-15 oed sy'n gallu siarad Cymraeg wedi cynyddu o 88.6% i 89.1% (cynnydd o 0.5 pwynt canran). Mae hyn oherwydd bod y gostyngiad yn y nifer sy'n gallu siarad Cymraeg yn cynrychioli 83.5% o'r holl ostyngiad o fewn y grŵp oedran (sef 1,712 person). Felly, er bod llai o'r grŵp oedran yma'n siarad y Gymraeg, mae'r canran o siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu, gan fod y niferoedd yn y grŵp yma wedi lleihau yng Ngwynedd rhwng 2001 a 2011.
- 3.4. Gyda'r grŵp oedran 16-64, gwelwn fod nifer y siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu o 95 person (sef cynnydd o 0.2%). Serch hynny, mae canran y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng o 65.6% i 62.5% (gostyngiad o 3.1 pwynt canran). Mae'r cynnydd yn y nifer o siaradwyr Cymraeg yn cynrychioli 2.5% o'r holl gynnydd o fewn y grŵp oedran hwn (sef 3,764 person). Gyda'r grŵp oedran yma, mae'r niferoedd a'r niferoedd siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu, ond y canran siaradwyr Cymraeg wedi gostwng. Awgryma hyn fod allfudo gan siaradwyr Cymraeg a mewnfudo gan bobl Ddi-Gymraeg yn cyfrannu'n sylweddol ar yr ystadegau.
- 3.5. Ar gyfer y grŵp oedran 65+, gwelir yr un patrwm a nodir yn 3.4. uchod, gyda chynnydd o 878 yn y nifer o siaradwyr Cymraeg (cynnydd o 3.5%), ond gostyngiad yn y canran sy'n gallu siarad Cymraeg (o 63.5% i 58.0%, sef gostyngiad o 5.5 pwynt canran). Mae'r cynnydd yn y nifer o siaradwyr Cymraeg yn cynrychioli 16.6% o holl gynnydd y

boblogaeth o fewn y grŵp oedran hwn (sef 2,937 person). Awgryma hyn dueddiad i bobl hŷn Ddi-Gymraeg symud i'r ardal.

- 3.6. O safbwynt sgiliau iaith Gymraeg, mae'r nifer o bobl sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg wedi gostwng o 68,395 i 65,921, sef gostyngiad o 2,474 person (neu 3.6%). Fel canran o'r holl boblogaeth, bu gostyngiad o 60.6% i 56.0% (neu 4.7 pwynt canran).
- 3.7. Mae'r nifer o bobl sy'n gallu siarad a darllen Cymraeg ond ddim yn gallu ysgrifennu Cymraeg wedi cynyddu o 2,609 i 3,947, sef cynnydd o 1,338 person (neu 51.3%). Fel canran o'r holl boblogaeth, bu cynnydd o 2.3% i 3.4% (neu 1.0 pwynt canran).
- 3.8. Mae'r nifer o bobl sy'n gallu deall Cymraeg llafar yn unig wedi cynyddu o 6,663 i 8,125, sef cynnydd o 1,462 person (neu 21.9%). Fel canran o'r holl boblogaeth, bu cynnydd o 5.9% i 6.9% (neu 1.0 pwynt canran).
- 3.9. Mae'r nifer o bobl heb unrhyw sgiliau iaith Gymraeg wedi cynyddu o 26,953 i 31,177, sef cynnydd o 4,224 person (neu 15.7%). Fel canran o'r holl boblogaeth, bu cynnydd o 23.9% i 26.5% (neu 2.6 pwynt canran).
- 3.10. O edrych ar sgiliau iaith Gymraeg, bu cynnydd bach yn y nifer sy'n siarad a darllen a deall yr iaith, ond gostyngiad mwy yn y nifer sy'n ysgrifennu'r Gymraeg. Ymddengys yn gyffredinol fod y set sgiliau'n culhau. Noder yn ogystal perthynas bosib gyda mewnfudo: Bu cynnydd o 5,000 ym mhoblogaeth Gwynedd, tra bu cynnydd o 4,224 yn y personau heb unrhyw sgiliau iaith Gymraeg.

4. Camau Nesaf

- 4.1. Dylid pwysleisio mai canfyddiadau cychwynnol yn unig sydd ar gael i ni ar hyn o bryd. Gellir ond dadansoddi data fesul grŵp oedran, fesul sir ac y genedlaethol ar hyn o bryd.
- 4.2. Disgwyliwn ddata ieithyddol i lefel ward ar 30/01/13, ac wrth i ragor o wybodaeth Cyfrifiad gael ei gyhoeddi dros y misoedd nesaf, gallwn ddechrau cymharu gwahanol setiau data er mwyn dod i well casgliad ynglŷn â sefyllfa'r Gymraeg yng Ngwynedd. Y disgwyl yw y bydd gennym ddigon o dystiolaeth i ddechrau dadansoddiad llawn at ddiwedd Hydref 2013.

EITEM

CYFARFOD	PWYLLGOR IAITH Y CYNGOR
DYDDIAD	17 Ionawr 2013
TEITL	Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg
PWRPAS	I ystyried cynnwys drafft terfynol o'r Cynllun
ARGYMHELLIAD	Derbyn yr adroddiad
AWDUR	Dewi R Jones, Pennaeth Addysg
AELOD CABINET	Cynghorydd Sian Gwenllian

Rhagarweiniad a chyd-destun

Yn Rhagfyr 1996 cyhoeddodd Cyngor Gwynedd Gynllun Iaith Gymraeg yn unol â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Fe'i cymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, ac ynddo nodir sut y mae'r Cyngor, wrth ymdrin â'r cyhoedd, yn trin yr Iaith Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

O dan Rhan 1 a Rhan 2 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, roedd yn ofynnol i'r Awdurdod Addysg Lleol ddarparu Cynllun Iaith Gymraeg sy'n delio'n benodol ag Addysg [Cynllun Addysg Gymraeg]. Cymeradwywyd Cynllun Addysg Gymraeg cyntaf Cyngor Gwynedd yn Nhachwedd 1998. Yn dilyn cyfnod gweithredu tair blynedd y Cynllun Addysg Gymraeg lluniwyd ail Gynllun a gymeradwywyd yn Awst 2004. Adolygwyd y Cynllun yn 2010 a chymeradwywyd y Cynllun Addysg Gymraeg yma gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 30 Mehefin 2011.

Bellach mae gofyn ar awdurdodau lleol i baratoi, diwygio a chyflwyno **Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg**. Bydd y Cynlluniau hyn yn amlinellu sut bydd awdurdodau lleol yn bwriadu cyflawni nodau a thargedau Llywodraeth Cymru a amlinellir yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg.

Dehonglir y Strategaeth yng nghyd-destun Polisi Iaith Cyngor Gwynedd a thrwy hynny wireddu'r deilliannau. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau fod y prif elfennau yn cael eu hadlewyrchu ac yn cael sylw priodol yn y Cynllun Strategol.

Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Bydd y Cynlluniau yn fodd i Lywodraeth Cymru allu monitro'r ffordd y bydd awdurdodau lleol yn ymateb i'r angen i weithredu nodau'r Strategaeth a chyfrannu tuag atynt trwy:

- sicrhau bod pob cam o brosesau addysg yr awdurdodau lleol yn rhoi ystyriaeth lawn i addysg cyfrwng Gymraeg a dwyieithog;
- ehangu addysg cyfrwng Gymraeg a dwyieithog ar sail cynllunio gwell;
- symud y gwasanaeth cefnogi yn raddol i ffwrdd oddi wrth swyddogaethau traddodiadol athrawon bro at wasanaeth hyfforddi a mentora newydd;
- sicrhau fod gwasanaethau cefnogi addysg cyfrwng Gymraeg a dwyieithog yn cael eu cyflwyno ar sail consortia yn y dyfodol agos (*Hyn yn weithredol o Ebrill 2013 ymlaen*);
- wella safonau ac ehangu defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc (*Gweithredu gofynion Y Siarter Iaith*); a
- ddangos cynnydd yn erbyn targedau penodol y Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg.

Bwriad y Cynllun Strategol yw:

- disgwyl i awdurdodau lleol fod yn atebol i Lywodraeth Cymru am gynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a'r iaith Gymraeg;
- adlewyrchu nodau'r Strategaeth;
- darlunio'r sefyllfa bresennol, amlinellu'r gweithgareddau priodol a dangos cynnydd;
- bod yn hwylus ac yn ddefnyddiol i awdurdodau lleol; a
- dangos cynnydd clir dros dair blynedd ym mhob awdurdod lleol ac ardal consortiwm tuag at gyflawni targedau'r Strategaeth.

Canolbwynt y Cynllun Strategol yw'r targedau a geir yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Bydd y Cynllun yn canolbwyntio ar yr agweddau a ganlyn gan eu gosod fel nodau clir i'n rhaglen waith:

- Gosod sylfaen gadarn ar gyfer y Gymraeg yn ystod addysg feithrin a'r blynyddoedd cynnar. (98.6% o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.)
- Sicrhau dilyniant yn y Gymraeg fel pwnc ac fel cyfrwng dysgu o CA2 i CA3. (100% o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r uwchradd.)
- Cryfhau'r gweithredu yn yr ardaloedd/sefydliadau/ysgolion lle mae data yn dangos yr angen.
- Cryfhau'r defnydd o'r carfanau iaith fel offeryn cynllunio dilyniant mewn ysgolion uwchradd.
- Cyflwyno Bagloriaeth Cymru ar lefelau 1, 2 a 3 yn yr ysgolion uwchradd.
- Cadarnhau gweithrediad Y Siarter Iaith ymhob un o'n hysgolion cynradd gan roi sylw amlwg i hyfforddi'r gweithlu gan ddatblygu'r elfennau cyfrwng a methodoleg.

Bydd gofyn i awdurdodau adrodd ar gynnydd y Cynllun Strategol a hwnnw'n gynnydd mesuradwy. Bydd oes y cynlluniau hyn yn cyd-fynd â'r targedau a nodir yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, sef hyd at 2015.

Argymhelliad

Atodir copi o ddrafft terfynol 'Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Gwynedd' ar gyfer sylw aelodau'r Pwyllgor iaith.

Gofynnir i'r aelodau ystyried a derbyn cynnwys y drafft terfynol o'r Cynllun.

Atodiad 1: Y Cynllun Gweithredu – Mynd i'r afael â thargedau cenedlaethol ar lefel All

Adran 1: Eich gweledigaeth a'ch nodau ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg

Mae Polisi Iaith yr Adran Addysg yn gosod y nôd uchelgeisiol o sicrhau bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg, er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Cydwedda hyn yn dda gyda phrif nôd Cynllun Strategol y Gymraeg sef sicrhau datblygiad y Gymraeg fel pwnc a chyfrwng dysgu o oedran cyn-ysgol ymlaen.

Er mwyn gwireddu'r agenda uchelgeisiol hon, disgwylir i bob sefydliad roi sylw i'r materion a ganlyn.

- o Gosod sylfaen gadarn yn y Gymraeg yn y Blynyddoedd Cynnar, gan sicrhau bod disgyblion o gefndir Saesneg yn cael y cyfle i ddysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl.
- o Yn CA1/CS, adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cyfnod meithrin a derbyn drwy barhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg, a chychwyn ar y broses o ddatblygu eu sgiliau yn y Saesneg. Yn ymarferol, golyga hyn y bydd y mwyafrif o'r ysgolion yn cychwyn cyflwyno'r Saesneg fel pwnc yn y tymor olaf ar ddiwedd CA1/CS, gan roi sylw i ddatblygu sgiliau darllen, siarad ac ysgrifennu yn yr iaith honno. Y Gymraeg fydd iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd y cyfnod allweddol.
- o Yn CA2, parhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith. Asesir cynnydd disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg ar ddiwedd y cyfnod allweddol.
- o Yn CA3, sicrhau bod pob disgybl sydd wedi cyrraedd lefel 3+ ar ddiwedd CA2 yn parhau i ddilyn Cymraeg Iaith Gyntaf er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol.
- o Yn CA4, sicrhau bod pob disgybl yn astudio'r Gymraeg fel pwnc hyd at ddiwedd B11 ac yn cael asesiad yn y Gymraeg ar ddiwedd CA4.
- o Yn CA3 a CA4, defnyddio'r wybodaeth am gyflawniad blaenorol i sicrhau bod pob disgybl yn parhau i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg trwy ddefnyddio'r ddwy iaith yn gyfrwng dysgu.
- o Sicrhau bod disgyblion sy'n ddysgwyr y Gymraeg yn CA2 a CA3 yn dysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl.
- o Gwella gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru.
- o Datblygu'r disgyblion i fod yn ddinasyddion cyfrifol fel eu bod yn cyfrannu'n arwyddocaol i'r gymdeithas ddwyieithog maent yn rhan ohoni.

Yn dilyn adolygiad trylwyr o'r **Cynllun Addysg** cyfredol cytunwyd y byddai Cynllun Strategol y Gymraeg yn canolbwyntio ar yr agweddau a ganlyn gan eu gosod fel nodau clir i'n rhaglen waith tair blynedd.

- o Gosod sylfaen gadarn ar gyfer y Gymraeg yn ystod addysg feithrin a'r blynyddoedd cynnar. (**98.6%** o blant saith oed yn cael eu haddysu drwy gyfrwng y Gymraeg.)
- o Sicrhau dilyniant yn y Gymraeg fel pwnc ac fel cyfrwng dysgu o CA2 i CA3. (**100%** o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r uwchradd.)
- o Cryfhau'r gweithredu yn yr ardaloedd/sefydliadau/ysgolion lle mae data yn dangos yr angen.
- o Cryfhau'r defnydd o'r carfanau iaith fel offeryn cynllunio dilyniant mewn ysgolion uwchradd.
- o Cyflwyno Bagloriaeth Cymru ar lefelau 1, 2 a 3 yn yr ysgolion uwchradd.
- o Cadarnhau gweithrediad Y Siarter Iaith ymhob un o'n hysgolion cynradd. gan roi sylw amlwg i hyfforddi'r gweithlu gan ddatblygu'r elfennau cyfrwng a methodoleg.

O wneud hyn yn llwyddiannus yn ystod y tair blynedd nesaf rhagwelir bydd yn bosibl symud y pwyslais i CA4 ac 14-19 yn y cyfnod 2013 ymlaen.

Adran 2: Y Cynllun Gweithredu


Deiliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg <i>Gweler Atodiad 3</i>		TARGED: 98.6%																																																																																																																																													
A. Amcan	B. Perfformiad cyfredol (Cwestiynau i'w hateb)	C. Gweithredu	Ch. Cynnydd																																																																																																																																												
Cynyddu nifer y dysgwyr saith oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	<p>o Nid yw'r Sir yn diffinio ysgolion cynradd yn ôl categorïau ieithyddol gan fod yr un Polisi Iaith ar waith ymhob ysgol. Yr un yw'r pwyslais ar ddwyieithrwydd, sef rhoi cyfle i holl ddisgyblion y Sir fod yn hyderus ddwyieithog.</p> <p>o Dangosir isod nifer disgyblion yng ngharfan CA1 (Y Cyfnod Sylfaen o 2012) a'r nifer asesir yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf.</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th></th> <th>2007</th> <th>2008</th> <th>2009</th> <th>2010</th> <th>2011</th> <th>2012</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>CA1</td> <td>1264/1279</td> <td>1193/1218</td> <td>1124/1145</td> <td>1152/1156</td> <td>1108/1126</td> <td>1182/1203</td> </tr> </tbody> </table> <p>* nifer a asesir / nifer yn y garfan</p> <p>o Mae'r niferoedd uchod yn cymharu'n ffafriol iawn gyda gweddill awdurdodau Cymru.</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th colspan="6">Canran a asesir yn y Gymraeg fel iaith Gyntaf ar ddiwedd CA1</th> </tr> <tr> <th></th> <th>2007</th> <th>2008</th> <th>2009</th> <th>2010</th> <th>2011</th> </tr> </thead> <tbody> <tr><td>1</td><td>98.3</td><td>97.9</td><td>98.2</td><td>99.7</td><td>98.4</td></tr> <tr><td>2</td><td>76.3</td><td>78.9</td><td>76.4</td><td>76.1</td><td>73.1</td></tr> <tr><td>3</td><td>75.6</td><td>74.5</td><td>72.8</td><td>70.2</td><td>68.8</td></tr> <tr><td>4</td><td>52.5</td><td>55.1</td><td>53.7</td><td>55.0</td><td>55.6</td></tr> <tr><td>5</td><td>22.4</td><td>23.0</td><td>23.3</td><td>25.0</td><td>26.1</td></tr> <tr><td>6</td><td>20.5</td><td>21.8</td><td>23.1</td><td>23.2</td><td>25.0</td></tr> <tr><td>7</td><td>20.3</td><td>21.0</td><td>21.0</td><td>21.9</td><td>21.9</td></tr> <tr><td>8</td><td>19.7</td><td>20.6</td><td>20.1</td><td>21.8</td><td>21.2</td></tr> <tr><td>9</td><td>19.6</td><td>20.6</td><td>19.9</td><td>20.3</td><td>20.8</td></tr> <tr><td>10</td><td>13.9</td><td>15.9</td><td>17.6</td><td>16.9</td><td>17.3</td></tr> <tr><td>11</td><td>13.3</td><td>15.5</td><td>15.9</td><td>15.2</td><td>16.8</td></tr> <tr><td>12</td><td>13.3</td><td>13.0</td><td>13.8</td><td>14.9</td><td>15.9</td></tr> <tr><td>13</td><td>12.5</td><td>11.8</td><td>13.8</td><td>13.5</td><td>15.3</td></tr> <tr><td>14</td><td>11.3</td><td>11.6</td><td>11.8</td><td>13.4</td><td>13.7</td></tr> <tr><td>15</td><td>11.1</td><td>11.3</td><td>10.5</td><td>13.1</td><td>12.8</td></tr> <tr><td>16</td><td>11.0</td><td>11.0</td><td>9.8</td><td>11.2</td><td>12.6</td></tr> <tr><td>17</td><td>8.4</td><td>9.1</td><td>8.6</td><td>10.2</td><td>11.7</td></tr> <tr><td>18</td><td>8.2</td><td>8.2</td><td>8.4</td><td>9.4</td><td>9.4</td></tr> <tr><td>19</td><td>6.8</td><td>7.5</td><td>7.1</td><td>9.0</td><td>8.9</td></tr> </tbody> </table>		2007	2008	2009	2010	2011	2012	CA1	1264/1279	1193/1218	1124/1145	1152/1156	1108/1126	1182/1203	Canran a asesir yn y Gymraeg fel iaith Gyntaf ar ddiwedd CA1							2007	2008	2009	2010	2011	1	98.3	97.9	98.2	99.7	98.4	2	76.3	78.9	76.4	76.1	73.1	3	75.6	74.5	72.8	70.2	68.8	4	52.5	55.1	53.7	55.0	55.6	5	22.4	23.0	23.3	25.0	26.1	6	20.5	21.8	23.1	23.2	25.0	7	20.3	21.0	21.0	21.9	21.9	8	19.7	20.6	20.1	21.8	21.2	9	19.6	20.6	19.9	20.3	20.8	10	13.9	15.9	17.6	16.9	17.3	11	13.3	15.5	15.9	15.2	16.8	12	13.3	13.0	13.8	14.9	15.9	13	12.5	11.8	13.8	13.5	15.3	14	11.3	11.6	11.8	13.4	13.7	15	11.1	11.3	10.5	13.1	12.8	16	11.0	11.0	9.8	11.2	12.6	17	8.4	9.1	8.6	10.2	11.7	18	8.2	8.2	8.4	9.4	9.4	19	6.8	7.5	7.1	9.0	8.9	<p>o Sicrhau bod pob disgybl yn cael eu hasesu yn y Gymraeg fel iaith gyntaf ar ddiwedd CA1 a CA2.</p> <p>Yn flynyddol</p>	
	2007	2008	2009	2010	2011	2012																																																																																																																																									
CA1	1264/1279	1193/1218	1124/1145	1152/1156	1108/1126	1182/1203																																																																																																																																									
Canran a asesir yn y Gymraeg fel iaith Gyntaf ar ddiwedd CA1																																																																																																																																															
	2007	2008	2009	2010	2011																																																																																																																																										
1	98.3	97.9	98.2	99.7	98.4																																																																																																																																										
2	76.3	78.9	76.4	76.1	73.1																																																																																																																																										
3	75.6	74.5	72.8	70.2	68.8																																																																																																																																										
4	52.5	55.1	53.7	55.0	55.6																																																																																																																																										
5	22.4	23.0	23.3	25.0	26.1																																																																																																																																										
6	20.5	21.8	23.1	23.2	25.0																																																																																																																																										
7	20.3	21.0	21.0	21.9	21.9																																																																																																																																										
8	19.7	20.6	20.1	21.8	21.2																																																																																																																																										
9	19.6	20.6	19.9	20.3	20.8																																																																																																																																										
10	13.9	15.9	17.6	16.9	17.3																																																																																																																																										
11	13.3	15.5	15.9	15.2	16.8																																																																																																																																										
12	13.3	13.0	13.8	14.9	15.9																																																																																																																																										
13	12.5	11.8	13.8	13.5	15.3																																																																																																																																										
14	11.3	11.6	11.8	13.4	13.7																																																																																																																																										
15	11.1	11.3	10.5	13.1	12.8																																																																																																																																										
16	11.0	11.0	9.8	11.2	12.6																																																																																																																																										
17	8.4	9.1	8.6	10.2	11.7																																																																																																																																										
18	8.2	8.2	8.4	9.4	9.4																																																																																																																																										
19	6.8	7.5	7.1	9.0	8.9																																																																																																																																										

	<table border="1"> <tr> <td>20</td> <td>5.5</td> <td>5.9</td> <td>5.8</td> <td>6.7</td> <td>5.7</td> </tr> <tr> <td>21</td> <td>4.4</td> <td>5.7</td> <td>5.1</td> <td>5.5</td> <td>4.7</td> </tr> <tr> <td>22</td> <td>3.3</td> <td>3.6</td> <td>4.3</td> <td>4.6</td> <td>4.4</td> </tr> <tr> <td>23</td> <td>2.9</td> <td>2.5</td> <td>2.8</td> <td>4.0</td> <td>3.9</td> </tr> </table> <p>Gwynedd Cymru</p> <p>o Darperir cefnogaeth ychwanegol i'r ysgolion yn yr ardaloedd lle bo angen datblygiadau pellach - trwy ymweliadau ychwanegol, cyrsiau penodol ar gyfer Datblygu'r Gymraeg yn yr Ardaloedd lle bo angen datblygiadau pellach, a thrwy ddarparu adnoddau addas.</p>	20	5.5	5.9	5.8	6.7	5.7	21	4.4	5.7	5.1	5.5	4.7	22	3.3	3.6	4.3	4.6	4.4	23	2.9	2.5	2.8	4.0	3.9		
20	5.5	5.9	5.8	6.7	5.7																						
21	4.4	5.7	5.1	5.5	4.7																						
22	3.3	3.6	4.3	4.6	4.4																						
23	2.9	2.5	2.8	4.0	3.9																						
<p>Mabwysiadu dulliau cadarn o fesur y galw am ddarpariaeth gofal plant ac addysg statudol cyfrwng Cymraeg. Gweithredu'n brydlon ar gasgliadau arolygon rhieni.</p>	<p>o Gan fod y Polisi Iaith yn rhoi pwyslais ar ddwyieithrwydd a'r angen i osod sylfeini cadarn ar gyfer y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar a datblygu ar hyn yn y cyfnodau allweddol sy'n dilyn, nid yw'r angen i 'fesur y galw' yn berthnasol yn lleol.</p> <p>o Polisi'r Awdurdod (gan eithrio dwy ysgol) yw cynnig lle meithrin rhan amser i blant yn eu hysgol dalgylch o'r Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Rhydd yr Awdurdod grant i 73 lleoliad yn y sector nas cynhelir i ddarparu addysg feithrin i blant 3 oed cyn eu bod yn cychwyn yn yr ysgolion. Mae'r holl leoliadau yn cael eu monitro'n rheolaidd gan dîm o athrawon Cefnogi Cyfnod Sylfaen a Swyddogion Datblygu'r Mudiad Meithrin a Chymdeithas Darparwyr Chwarae Cymru. Rhan o'r monitro hwnnw yw sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion Polisi Iaith y Sir. Trefnir hefyd gyfres o sesiynau hyfforddi Cymraeg i staff y sector.</p> <p>o Nodwyd yn yr asesiad digonolrwydd gofal plant diweddar fod cyfran helaeth o'r ddarpariaeth gofal plant yng Ngwynedd ar gael yn y Gymraeg. O ran ffigyrau 'Gwynedd Ni', nodwyd bod 53 o Gylchoedd Ti a Fi ar draws y Sir a dwy ganolfan integredig sy'n cefnogi'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.</p> <p>o O fewn y Cynllun Dechrau'n Deg a'r Cynllun Iaith a Chwarae ceir tîm amlddisgyblaethol sy'n cynnig amrywiaeth o sesiynau Cymraeg i rieni a phlant fel sesiynau Iaith a Chwarae, sesiynau stori, sesiynau canu hwiangerddi, sachau stori, sesiynau symud, dawns a nofio. Yn ogystal dosberthir pecyn o lyfrau dwyieithog drwy'r Cynllun Dechrau'n Deg a'r Cynllun 'Dechrau Da'. Ceir tystiolaeth fod y timau amlddisgyblaethol hyn yn gwneud dipyn o waith ledled y Sir i weithio gyda rhieni i danlinellu pwysigrwydd yr Iaith Gymraeg gan arddangos y dulliau posibl o drosglwyddo'r Iaith Gymraeg yn gynnar ym mywyd plentyn.</p>	<p>o Sicrhau bod pob lleoliad Blynyddoedd Cynnar yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer y Gymraeg.</p> <p>Yn flynyddol</p> <p>o Pob plentyn yn cael asesiad sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Gymraeg ar fynediad ac ar derfyn addysg feithrin rhan amser ac ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.</p> <p>Medi 2013</p>																									
<p>Sicrhau bod cynigion Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cynnig ystyriaeth lawn o ddarpariaeth cyfrwng</p>	<p>o Fel nodir uchod, yr un yw'r disgwyliad mewn perthynas â'r Gymraeg ar gyfer pob ysgol, sef rhoi cyfle i holl ddisgyblion y Sir fod yn hyderus ddwyieithog. Yn sgil hyn, mae unrhyw gynlluniau newydd a gyflwynir, megis cynigion ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif, yn ddarostyngedig i ofynion y Polisi Iaith.</p>																										

Cymraeg.																	
<p>Gwella gweithio cydweithredol drwy gonsortia.</p>	<ul style="list-style-type: none"> o Mae cynnwys y Cynllun hwn ynghyd â'r Polisi Iaith Addysg yn ystyriaeth greiddiol wrth sefydlu unrhyw ddarpariaeth o'r newydd neu unrhyw drefniant cydweithredol a sefydlir. o Yng Nghynllun Busnes Amlinellol y Gwasanaeth Gwella Ysgolion arfaethedig ar gyfer awdurdodau'r Gogledd, fe nodir y canlynol fel sylfaen i swyddogaethau allweddol yr endid newydd: 'Bydd swyddogaethau allweddol yr endid newydd yn seiliedig ar yr egwyddor wreiddiol o ddarparu strategaethau ar gyfer yr Iaith Gymraeg yn lleol a chenedlaethol ac i gynyddu'r rhagoriaeth mewn addysgeg ac addysg cyfrwng Cymraeg/dwyieithog mewn cymunedau ledled Gogledd Cymru.' o Fe arweinir grŵp strategol traws-awdurdod gan y Pennaeth Addysg a fydd yn canolbwyntio ar y Gymraeg, cyfrwng Cymraeg ac adeiladu cynhwysedd. 																
<p>Cynyddu'r gallu i fanteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy gynlluniau trochi a chanolfannau i hwyrddyfodiaid.</p>	<ul style="list-style-type: none"> o Nôd y Canolfannau Iaith yw darparu cwrs dwys yn y Gymraeg i fewnfudwyr er mwyn eu galluogi i ymdoddi i'r gymdeithas ddwyieithog a chyfranogi'n llawn o brofiadau addysg ddwyieithog. Mae'r ddarpariaeth hon yn greiddiol i gynorthwyo ysgolion cynradd ac uwchradd i weithredu'r Polisi Iaith cyfredol. o Erbyn hyn mae pedair canolfan gynradd ac un canolfan uwchradd, sy'n gwbl unigryw yng Nghymru. Lleolir y canolfannau cynradd yng Nghaernarfon, Dolgellau, Llangybi a Phenrhyndeudraeth, a'r ganolfan uwchradd ym Mhorthmadog. o Rhwng 2005 a Hydref 2012 mae cyfanswm o 1056 o ddisgyblion cynradd a 358 o ddisgyblion uwchradd wedi elwa o gael mynychu'r canolfannau iaith. o Datblygiad cyffrous diweddar yw'r Project ar gyfer Cymathu Rhieni, dan nawdd Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a chynhaliwyd gwerthusiad o'r ddarpariaeth yn ddiweddar, gyda'r gobaith y caiff ei ddatblygu ymhellach yn y dyfodol. o Er mwyn sicrhau dilyniant priodol yn yr ysgolion bydd athrawon y ganolfan yn cynnig ôl-ofal i bob disgybl wedi iddynt ddychwelyd i'w hysgolion. o Sefydlwyd Cynllun Trochi (gyda chefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg) yn Ysgol Tryfan. Mae hwn yn cynnig cyfnod blasu i ddisgyblion B5 yr ysgolion cynradd gyda dilyniant o sylw dwys ar ddechrau'r ysgol uwchradd i ddisgyblion prin eu Cymraeg. Mae hyn yn profi'n llwyddiannus ac yn caniatáu i ddisgyblion na fyddent efallai wedi dewis cyfrwng Cymraeg yn yr uwchradd i barhau â'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg / dwyieithog. <p>Nifer y disgyblion fynychodd y cwrs trochi rhwng 2007-2012:</p> <table border="1" data-bbox="461 1222 1509 1286"> <tr> <td>2007</td> <td>2008</td> <td>2009</td> <td>2010</td> <td>2011</td> <td>2012</td> <td>Cyfanswm</td> </tr> <tr> <td>o 17</td> <td>o 24</td> <td>o 20</td> <td>o 17</td> <td>o 35</td> <td>o 39</td> <td>o 152</td> </tr> </table>	2007	2008	2009	2010	2011	2012	Cyfanswm	o 17	o 24	o 20	o 17	o 35	o 39	o 152	<ul style="list-style-type: none"> o Sicrhau parhad y ddarpariaeth bresennol a bod trefn bendant ar gyfer monitro dilyniant yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd. <p>Yn flynyddol</p>	
2007	2008	2009	2010	2011	2012	Cyfanswm											
o 17	o 24	o 20	o 17	o 35	o 39	o 152											
Sefydlu Fforwm Addysg	o Fel nodir uchod, mae gofynion y Polisi Iaith Addysg a Chynllun Iaith y Cyngor yn gyrru holl																

<p>Cyfrwng Cymraeg a sefydlu cyswllt â Chynllun Plant a Phobl Ifanc. Sicrhau ystyriaethau ar gyfer adnoddau ac ariannu darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn blynyddoedd cynnar.</p>	<p>waith y Cyngor a'r Adran Addysg. Yn y cyd-destun hwn, mae holl weithgareddau ac ystyriaethau'r Cyngor ac yn benodol y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn rhoi blaenoriaeth i ofynion y Gymraeg. Bydd hynny'n parhau wrth i bartneriaethau Gwynedd a Môn ddod at ei gilydd.</p> <ul style="list-style-type: none"> o Sefydlwyd gweithgor sydd yn cynnwys cynrychiolaeth o blith swyddogion, ymgynghorwyr a phenaethiaid i lywio datblygiad y Cynllun Iaith Addysg a'r Cynllun Strategol. Bydd y grŵp hwn hefyd yn gyfrifol am fonitro gweithrediad y Cynllun. o Yn yr un modd, roedd Is-bwyllgor Iaith y Cyngor yn allweddol yn y broses o lunio'r Cynllun Iaith gwreiddiol. Rhagwelir hefyd bydd gan Bwyllgor Iaith y Cyngor ran allweddol yn y broses o fonitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau. 		
<p>Darparu gwybodaeth i rieni/ofalwyr.</p>	<ul style="list-style-type: none"> o Bydd yr Awdurdod yn paratoi gwybodaeth gyffredinol yn ddwyieithog i rieni ynghylch y ddarpariaeth sirol. Caiff ei ddsbarthu i'r rhieni cynradd ym mis Ionawr ac i'r rhieni uwchradd ym mis Tachwedd. Bydd yn cynnwys gwybodaeth am y polisi mynediad. Mae'r ysgolion yn paratoi prospectws eu hunain. o Mae'r gwasanaethau a ddarperir gan y gwasanaeth lles addysg ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gan fod gallu defnyddio'r ddwy iaith yn ofyn hanfodol ar gyfer y swyddi hyn . o Mae gwasanaeth cymodi annibynnol, ym maes anghenion addysgol arbennig, ar gael ar hyn o bryd trwy drefniant gyda SNAP Cymru, sydd eto yn darparu gwasanaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg. 		

Deilliant 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd <i>Dylid hefyd llenwi Atodiadau 3/4</i>		TARGED: 90%																													
A. Amcan	B. Perfformiad cyfredol	C. Gweithredu	D. Cynnydd																												
<p>Cynyddu canran y disgyblion Blwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (Iaith Gyntaf)</p>	<ul style="list-style-type: none"> o Dangosir isod nifer disgyblion yng nghanfan CA3 ynghyd â'r nifer a'r % asesir yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf. <table border="1" data-bbox="427 1134 1512 1294"> <thead> <tr> <th></th> <th>2007</th> <th>2008</th> <th>2009</th> <th>2010</th> <th>2011</th> <th>2012</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>CA3</td> <td>1159/1386</td> <td>1150/1441</td> <td>1135/1426</td> <td>1054/1290</td> <td>1185/1427</td> <td>1154/1340</td> </tr> <tr> <td>Gwynedd</td> <td>83%</td> <td>80%</td> <td>80%</td> <td>82%</td> <td>83%</td> <td>86%</td> </tr> <tr> <td>Cymru</td> <td>5627/36822 (15.3%)</td> <td>5800/36266 (16%)</td> <td>5594/35221 (15.9%)</td> <td>5550/34717 (16%)</td> <td>5862/35903 (16.3%)</td> <td>5787/34520 (16.8%)</td> </tr> </tbody> </table> <p>*nifer yn y garfan/nifer a asesir</p> <ul style="list-style-type: none"> o Cymharu % a asesir yn CA3 yn erbyn yr un cohort yn CA2, ar nifer yn unig. 		2007	2008	2009	2010	2011	2012	CA3	1159/1386	1150/1441	1135/1426	1054/1290	1185/1427	1154/1340	Gwynedd	83%	80%	80%	82%	83%	86%	Cymru	5627/36822 (15.3%)	5800/36266 (16%)	5594/35221 (15.9%)	5550/34717 (16%)	5862/35903 (16.3%)	5787/34520 (16.8%)	<ul style="list-style-type: none"> o Pob disgybl sydd wedi ennill lefel 3+ ar ddiwedd CA2 yn parhau gyda'r Gymraeg fel Iaith Gyntaf yn B7 ac yn cael asesiad Cymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA3. <p>Yn flynyddol</p>	
	2007	2008	2009	2010	2011	2012																									
CA3	1159/1386	1150/1441	1135/1426	1054/1290	1185/1427	1154/1340																									
Gwynedd	83%	80%	80%	82%	83%	86%																									
Cymru	5627/36822 (15.3%)	5800/36266 (16%)	5594/35221 (15.9%)	5550/34717 (16%)	5862/35903 (16.3%)	5787/34520 (16.8%)																									



- Mae'r % a asesir yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA3, mewn cymhariaeth ag awdurdodau eraill, yn dda. Fodd bynnag, mae'n ddymuniad i gynyddu'r % trwy ddylanwadu ar arferion mewn un ysgol sydd yn cyfrannu'n sylweddol at nifer y disgyblion nad ydynt yn cael eu hasesu yn y Gymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd y cyfnod allweddol.

Canran a asesir yn y Gymraeg fel iaith Gyntaf ar ddiwedd CA3

	2007	2008	2009	2010	2011
1	83.0	79.8	79.6	81.7	83.0
2	71.6	71.4	65.9	66.3	63.3
3	59.4	59.8	63.8	63.8	61.2
4	30.2	33.1	36.9	35.5	35.4
5	19.8	20.5	18.7	20.1	20.7
6	16.7	17.8	18.0	17.0	17.0
7	15.3	16.0	15.9	16.4	16.4
8	14.0	14.1	15.7	16.0	16.3
9	11.5	13.1	12.7	13.7	12.7
10	10.8	11.1	11.9	11.2	12.2
11	10.7	10.6	9.9	10.6	11.5
12	10.2	10.1	9.2	10.6	10.7
13	8.8	9.9	9.2	10.1	9.6
14	8.7	9.5	9.1	9.6	9.4
15	8.6	9.3	9.1	9.1	9.0
16	8.4	9.0	8.1	8.7	8.9
17	7.2	8.8	7.8	8.4	7.5
18	4.9	5.0	5.3	4.6	6.9
19	6.0
20
21

	<p>23</p> <p>Gwynedd Cymru</p>																																																										
<p>Hyrwyddo trosglwyddo mwy effeithiol rhwng y cyfnod cyn ysgol i ddarpariaeth statudol, rhwng Cyfnod Allweddol 2 a 3 a Chyfnodau Allweddol 3 a 4.</p>	<p>o Dangosir isod nifer disgyblion yng ngharfan CA1 a CA2 a'r nifer asesir yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf.</p> <table border="1" data-bbox="427 395 1469 523"> <thead> <tr> <th></th> <th>2007</th> <th>2008</th> <th>2009</th> <th>2010</th> <th>2011</th> <th>2012</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>CA1/CS</td> <td>1256/1279</td> <td>1193/1218</td> <td>1124/1145</td> <td>1152/1156</td> <td>1108/1126</td> <td>1182/1203</td> </tr> <tr> <td>CA2</td> <td>1264/1264</td> <td>1384/1387</td> <td>1313/1313</td> <td>1272/1277</td> <td>1264/1269</td> <td>1227/1238</td> </tr> <tr> <td>CA3</td> <td>1159/1386</td> <td>1150/1441</td> <td>1135/1426</td> <td>1054/1290</td> <td>1185/1427</td> <td>1154/1340</td> </tr> </tbody> </table> <p>*nifer yn y garfan/nifer a asesir</p> <p>o Mae'r tabl isod yn dangos nifer y disgyblion sydd wedi sefyll arholiad Cymraeg Iaith Gyntaf yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf ynghyd â'r % a lwyddodd i ennill gradd A*-C.</p> <table border="1" data-bbox="427 616 1509 807"> <thead> <tr> <th></th> <th>2007</th> <th>2008</th> <th>2009</th> <th>2010</th> <th>2011</th> <th>2012</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Nifer yn y garfan</td> <td>1458</td> <td>1445</td> <td>1355</td> <td>1388</td> <td>1372</td> <td>1266</td> </tr> <tr> <td>Nifer/% yn sefyll</td> <td>1127 (77.3%)</td> <td>1110 (76.8%)</td> <td>1107 (81.7%)</td> <td>1172 (84.4%)</td> <td>1115 (81.3%)</td> <td>1009 (79.7%)</td> </tr> <tr> <td>% llwyddo A*-C</td> <td>815 (72.3%)</td> <td>799 (72.0%)</td> <td>778 (70.3%)</td> <td>817 (69.7%)</td> <td>788 (70.7%)</td> <td>749 (74.2%)</td> </tr> </tbody> </table> <p>o Mae'r % sydd yn sefyll arholiad Cymraeg Iaith Gyntaf wedi cyrraedd 80% ers 2009, sydd yn ffigwr cadarnhaol iawn. Mae'r % sydd yn llwyddo i ennill gradd A*-C hefyd yn dda. Rhagwelir fodd bynnag bydd gwella dilyniant yn CA3 yn cael dylanwad cadarnhaol ar y % sydd yn symud ymlaen i sefyll arholiad TGAU yn y Gymraeg Iaith Gyntaf.</p>		2007	2008	2009	2010	2011	2012	CA1/CS	1256/1279	1193/1218	1124/1145	1152/1156	1108/1126	1182/1203	CA2	1264/1264	1384/1387	1313/1313	1272/1277	1264/1269	1227/1238	CA3	1159/1386	1150/1441	1135/1426	1054/1290	1185/1427	1154/1340		2007	2008	2009	2010	2011	2012	Nifer yn y garfan	1458	1445	1355	1388	1372	1266	Nifer/% yn sefyll	1127 (77.3%)	1110 (76.8%)	1107 (81.7%)	1172 (84.4%)	1115 (81.3%)	1009 (79.7%)	% llwyddo A*-C	815 (72.3%)	799 (72.0%)	778 (70.3%)	817 (69.7%)	788 (70.7%)	749 (74.2%)	<p>o Pob disgybl sydd wedi ennill lefel 3+ ar ddiwedd CA2 yn cael asesiad yn y Gymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA4. Anelir at sicrhau'r dilyniant hwn.</p> <p>Yn flynyddol</p> <p>o Sicrhau nad oes yr un disgybl yn gadael yr un o'r ysgolion yn 16 oed heb gymhwyster cydnabyddedig yn y Gymraeg.</p> <p>Yn flynyddol</p>	
	2007	2008	2009	2010	2011	2012																																																					
CA1/CS	1256/1279	1193/1218	1124/1145	1152/1156	1108/1126	1182/1203																																																					
CA2	1264/1264	1384/1387	1313/1313	1272/1277	1264/1269	1227/1238																																																					
CA3	1159/1386	1150/1441	1135/1426	1054/1290	1185/1427	1154/1340																																																					
	2007	2008	2009	2010	2011	2012																																																					
Nifer yn y garfan	1458	1445	1355	1388	1372	1266																																																					
Nifer/% yn sefyll	1127 (77.3%)	1110 (76.8%)	1107 (81.7%)	1172 (84.4%)	1115 (81.3%)	1009 (79.7%)																																																					
% llwyddo A*-C	815 (72.3%)	799 (72.0%)	778 (70.3%)	817 (69.7%)	788 (70.7%)	749 (74.2%)																																																					
<p>Hyrwyddo cyfran uwch o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn ysgolion dwyieithog.</p>	<p>o Nid yw dilyniant rhwng y sector cyn ysgol nas cynhelir a darpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen na rhwng y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 yn berthnasol gan mai yr un yw'r disgwyliad sef datblygu dwyieithrwydd, gan rhoi blaenoriaeth i osod syflaen gadarn ar gyfer y Gymraeg.</p> <p>o Dengys y tabl isod y cynnydd yn nifer a % disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 3+ ar ddiwedd CA2 dros y 5 mlynedd diwethaf.</p> <table border="1" data-bbox="427 1150 1509 1246"> <thead> <tr> <th></th> <th>2007</th> <th>2008</th> <th>2009</th> <th>2010</th> <th>2011</th> <th>2012</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Lefel 3+</td> <td>1156/1255 (92.1%)</td> <td>1295/1378 (94%)</td> <td>1255/1309 (95.9%)</td> <td>1208/1278 (95%)</td> <td>1202/1269 (94.7%)</td> <td>1168/1228 (95.1%)</td> </tr> </tbody> </table> <p>o Nid yw'r sir yn diffinio ysgolion uwchradd yn ôl categorïau ieithyddol gan fod yr un disgwyliad mewn perthynas â'r Polisi Iaith, sef rhoi cyfle i holl ddisgyblion y sir fod yn hyderus ddwyieithog. Ceir un eithriad i hyn ym Mangor gan fod dwy ysgol uwchradd, Ysgol Tryfan ac Ysgol Friars yn rhannu'r un dalgylch. Mae disgwyliad cyffredin ar y ddwy ysgol i gynnig dilyniant Cymraeg Iaith</p>		2007	2008	2009	2010	2011	2012	Lefel 3+	1156/1255 (92.1%)	1295/1378 (94%)	1255/1309 (95.9%)	1208/1278 (95%)	1202/1269 (94.7%)	1168/1228 (95.1%)	<p>o Cryfhau'r gweithredu yn nalgylch Bangor.</p> <p>Medi 2013</p> <p>o Pob ysgol i ddefnyddio'r carfanau iaith i gynllunio'n ieithyddol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu er mwyn sicrhau parhad neu welliant yng ngharfan ieithyddol ar lefel disgyblion unigol.</p> <p>Medi 2013</p> <p>o Pob ysgol yn defnyddio'r</p>																																											
	2007	2008	2009	2010	2011	2012																																																					
Lefel 3+	1156/1255 (92.1%)	1295/1378 (94%)	1255/1309 (95.9%)	1208/1278 (95%)	1202/1269 (94.7%)	1168/1228 (95.1%)																																																					

	<p>Gyntaf yn CA3 i'r disgyblion hynny enillodd lefel 3+ [lefel 3 neu uwch] ar ddiwedd CA2. Yr hyn sy'n amrywio rhwng y ddwy ysgol yw'r ddarpariaeth drawsbynciol; cynigir yr holl bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yn Ysgol Tryfan tra mai'r disgwyliad tymor hir ar gyfer Ysgol Friars yw sicrhau bod rhannau o'r cwricwlwm ar gael yn ddwyieithog.</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Mae'r tabl isod yn dangos % disgyblion B7 enillodd lefel 3+ neu uwch yn CA2 a gafodd asesiad Cymraeg iaith Gyntaf ar ddiwedd CA3. <table border="1" data-bbox="427 379 1509 539"> <thead> <tr> <th colspan="7">% disgyblion enillodd lefel 3+ neu uwch yn CA2 a gafodd asesiad athro yn y Gymraeg iaith gyntaf ar ddiwedd CA3</th> </tr> <tr> <th></th> <th>2007</th> <th>2008</th> <th>2009</th> <th>2010</th> <th>2011</th> <th>2012</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Gwynedd</td> <td></td> <td>1066/1222 (87.2%)</td> <td>1066/1213 (87.9%)</td> <td>985/1111 (88.7%)</td> <td>1114/1239 (89.9%)</td> <td>1104/1205 (91.6%)</td> </tr> </tbody> </table> <ul style="list-style-type: none"> ○ Mae'r % sydd yn parhau â'r Gymraeg fel iaith gyntaf ac yn cael eu hasesu ar ddiwedd CA3 yn dda. Mae hyn i'w ganmol ond nid yw'r ffigyrau cystal mewn un ysgol uwchradd lle nad yw'r disgyblion yn dilyn Cymraeg Iaith Gyntaf os nad ydynt wedi derbyn lefel 4 neu well ar ddiwedd CA2. Bydd annog yr ysgol i symud fwyfwy tuag at y targed yn un o flaenoriaethau'r Cynllun Strategol. 	% disgyblion enillodd lefel 3+ neu uwch yn CA2 a gafodd asesiad athro yn y Gymraeg iaith gyntaf ar ddiwedd CA3								2007	2008	2009	2010	2011	2012	Gwynedd		1066/1222 (87.2%)	1066/1213 (87.9%)	985/1111 (88.7%)	1114/1239 (89.9%)	1104/1205 (91.6%)	<p>Gymraeg fel cyfrwng addysgu a dysgu er mwyn cynyddu'r % arnodir yng ngharfanau iaith A neu B.</p> <p>Yn flynyddol</p>	
% disgyblion enillodd lefel 3+ neu uwch yn CA2 a gafodd asesiad athro yn y Gymraeg iaith gyntaf ar ddiwedd CA3																								
	2007	2008	2009	2010	2011	2012																		
Gwynedd		1066/1222 (87.2%)	1066/1213 (87.9%)	985/1111 (88.7%)	1114/1239 (89.9%)	1104/1205 (91.6%)																		
	<ul style="list-style-type: none"> ○ O safbwynt dilyniant yn y defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng, bydd angen cadarnhau'r disgwyliad i bob ysgol roi sylw i ddefnyddio'r carfanau iaith fel sail i dracio datblygiad ieithyddol yn ystod oes y Cynllun cyfredol. ○ Mae'r ysgolion uwchradd yn cael gwybodaeth am garfanau iaith pob disgybl gan Gyd-gysylltydd Iaith y dalgylch, wrth iddynt drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r uwchradd. Bydd hyn o gymorth wrth iddynt benderfynu ar y ddarpariaeth fwyaf priodol ar eu cyfer o ran iaith a chyfrwng pynciau, ac er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad. ○ Cynhaliwyd awdit yn 2010 i ganfod gwybodaeth am gyfrwng y cwricwlwm ac arholiadau yn yr ysgolion uwchradd. Roedd y sefyllfa bryd hynny fel a ganlyn. <p>Cyfrwng y cwricwlwm</p> <table border="1" data-bbox="427 1002 1435 1098"> <thead> <tr> <th>Cymraeg</th> <th>Saesneg</th> <th>Dwyieithog ffurfiol</th> <th>Defnydd o'r ddwy iaith</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>6</td> <td>1</td> <td>2</td> <td>5</td> </tr> </tbody> </table> <p>Cyfrwng arholiadau</p> <table border="1" data-bbox="427 1129 1379 1193"> <thead> <tr> <th>Cymraeg</th> <th>Saesneg</th> <th>Defnydd o'r ddwy iaith</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>3</td> <td>2</td> <td>9</td> </tr> </tbody> </table> <ul style="list-style-type: none"> ○ Yn yr addysgu a'r dysgu ei hun fe gyfeiria dwyieithog ffurfiol at drefn fydlol ble gofelir bod yr addysgu, y deunyddiau, y tasgau a'r trafod yn digwydd yn yr iaith a briodolir ar gyfer uned. yr athro sydd yn rheoli'r sefyllfa hon. ○ Yn yr ysgolion ble cyfeirir at y defnydd o'r ddwy iaith, er nad yr u mor strwythuredig a'r uchod, defnyddir y ddwy iaith i atgyfnerthu'r dysgu, a rhoddir pwyslais ar dasgau trawsieithu, sef delio efo adnodd mewn un iaith ac ymateb iddo yn yr iaith arall. 	Cymraeg	Saesneg	Dwyieithog ffurfiol	Defnydd o'r ddwy iaith	6	1	2	5	Cymraeg	Saesneg	Defnydd o'r ddwy iaith	3	2	9									
Cymraeg	Saesneg	Dwyieithog ffurfiol	Defnydd o'r ddwy iaith																					
6	1	2	5																					
Cymraeg	Saesneg	Defnydd o'r ddwy iaith																						
3	2	9																						

	<ul style="list-style-type: none">○ Dymunir tanlinellu mai cynnwys, cyfrwng a holl drefniadaeth cyflwyno'r cwricwlwm sy'n derbyn blaenoriaeth yn hytrach na chyfrwng papurau arholiad.○ Mae angen parhau i godi ymwybyddiaeth o'r angen i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg ac i ffurfioli'r sefyllfaoedd lle gwneir defnydd o'r ddwy iaith. Bydd hyn yn cael sylw trwy waith y Cyd-gysylltwyr Iaith Dalgylchol a'r gweithgor Cydlynwyr Iaith ysgolion Uwchradd sydd yn cyfarfod yn rheolaidd.		
--	---	--	--

Deilliant 3: Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg/dwyieithog. Deilliant 4: Mwy o fyfyrwyr 16-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith Gweler Atodiad 5		TARGED: Deilliant 3: 2 bwnc: 70% 5 pwnc: 60% Deilliant 4: 40 % cyfrwng Cymraeg																													
A. Amcan	B. Perfformiad cyfredol (Cwestiynau i'w hateb)	C. Targedau	D. Cynnydd																												
<p>Cynyddu canran y myfyrwyr 14-16 sy'n astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>	<p>o Mae'r tabl isod yn dangos % disgyblion B11 sy'n astudio ar gyfer 2 neu fwy o gymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th></th> <th>2007</th> <th>2008</th> <th>2009</th> <th>2010</th> <th>2011</th> <th>2012</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Gwynedd</td> <td>413/774 (53.4%)</td> <td>440/785 (56.1%)</td> <td>417/725 (57.5%)</td> <td>492/732 (67.2%)</td> <td>462/689 (67.1%)</td> <td>431/698 (61.7%)</td> </tr> </tbody> </table> <p>o Mae'r tabl isod yn dangos % disgyblion B11 sy'n astudio ar gyfer 5 neu fwy o gymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th></th> <th>2007</th> <th>2008</th> <th>2009</th> <th>2010</th> <th>2011</th> <th>2012</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Gwynedd</td> <td>865/1470 (58.8%)</td> <td>870/1454 (59.8%)</td> <td>870/1361 (63.9%)</td> <td>845/1395 (60.6%)</td> <td>812/1375 (59.1%)</td> <td>489/1246 (39.2%)</td> </tr> </tbody> </table>		2007	2008	2009	2010	2011	2012	Gwynedd	413/774 (53.4%)	440/785 (56.1%)	417/725 (57.5%)	492/732 (67.2%)	462/689 (67.1%)	431/698 (61.7%)		2007	2008	2009	2010	2011	2012	Gwynedd	865/1470 (58.8%)	870/1454 (59.8%)	870/1361 (63.9%)	845/1395 (60.6%)	812/1375 (59.1%)	489/1246 (39.2%)		
	2007	2008	2009	2010	2011	2012																									
Gwynedd	413/774 (53.4%)	440/785 (56.1%)	417/725 (57.5%)	492/732 (67.2%)	462/689 (67.1%)	431/698 (61.7%)																									
	2007	2008	2009	2010	2011	2012																									
Gwynedd	865/1470 (58.8%)	870/1454 (59.8%)	870/1361 (63.9%)	845/1395 (60.6%)	812/1375 (59.1%)	489/1246 (39.2%)																									
<p>Sicrhau bod darpariaeth i ddysgwyr 14-16 oed yn cydymffurfio â'r Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009</p>	<p>o Mae'r tabl isod yn dangos % myfyrwyr 16-19 oed sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th colspan="4">% myfyrwyr 16-19 oed sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion</th> </tr> <tr> <th></th> <th>2010</th> <th>2011</th> <th>2012</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Nifer 16-19</td> <td>717</td> <td>729</td> <td>748</td> </tr> <tr> <td>C=Cymraeg</td> <td>254 (35.4%)</td> <td>274 (37.6%)</td> <td>290 (38.8%)</td> </tr> <tr> <td>P=Dwyieithog</td> <td>374 (52.2%)</td> <td>368 (50.5%)</td> <td>424 (56.7%)</td> </tr> <tr> <td>R=Dwy iaith yn yr un dosbarth</td> <td>275 (38.4%)</td> <td>297 (40.7%)</td> <td>248 (33.2%)</td> </tr> <tr> <td>E=Saesneg</td> <td>398 (55.5%)</td> <td>421 (57.8%)</td> <td>408 (54.5%)</td> </tr> </tbody> </table> <p><i>Mae rhai cyfyngiadau ar y data. Mae pedwar cod ar gyfer Welsh Medium Learning Activity, sef [C] (Cymraeg), [E] (English), [P] (Dwyieithog) ac [R] (grwpiau iaith gwahanol yn yr un dosbarth). Mae [C] a [P] wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad uchod ond nid [R] gan na ellir gwahaniaethu rhwng y rhai cyfrwng Cymraeg/Saesneg yn yr un grwp. Noder bod pob pwnc UG/A [gan gynnwys BAC a SHC] wedi'u cynnwys.</i></p>	% myfyrwyr 16-19 oed sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion					2010	2011	2012	Nifer 16-19	717	729	748	C=Cymraeg	254 (35.4%)	274 (37.6%)	290 (38.8%)	P=Dwyieithog	374 (52.2%)	368 (50.5%)	424 (56.7%)	R=Dwy iaith yn yr un dosbarth	275 (38.4%)	297 (40.7%)	248 (33.2%)	E=Saesneg	398 (55.5%)	421 (57.8%)	408 (54.5%)	<p>Yn flynyddol :</p> <ul style="list-style-type: none"> o Gweithio gyda'r prif randdeiliaid i sicrhau bod yr arlwy yn caniatáu mynediad i ddarpariaeth ddwyieithog ar draws y pynciau galwedigaethol a Bagloriaeth Cymru yn CA4 a CA5 o Sicrhau bod y Grwpiau Partneriaeth ac Is-grŵp Ansawdd Rhwydwaith 14-19 yn monitro dilyniant ieithyddol yn y 	
% myfyrwyr 16-19 oed sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion																															
	2010	2011	2012																												
Nifer 16-19	717	729	748																												
C=Cymraeg	254 (35.4%)	274 (37.6%)	290 (38.8%)																												
P=Dwyieithog	374 (52.2%)	368 (50.5%)	424 (56.7%)																												
R=Dwy iaith yn yr un dosbarth	275 (38.4%)	297 (40.7%)	248 (33.2%)																												
E=Saesneg	398 (55.5%)	421 (57.8%)	408 (54.5%)																												

	<ul style="list-style-type: none"> ○ Mae holl ysgolion yn ymateb i ofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau ac wedi manteisio o bartneriaethau cydweithredol. ○ Ar draws yr ysgolion uwchradd darperir 163 o gymwysterau gwahanol trwy gyfrwng y Gymraeg/dwyieithog ar gyfer 14,296 o ymgeiswyr yn y B11 gyfredol. Darperir 61 o'r cymwysterau hyn trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig ar gyfer 2678 o ymgeiswyr. ○ Parheir i hyrwyddo datblygiad addysg ddwyieithog fel un o brif flaenoriaethau strategol y Rhwydwaith 14-19 a sicheir dilyniant ieithyddol priodol fel rhan greiddiol o gylch gorchwyl y grwpiau gweithredol y Rhwydwaith. ○ Disgwylir i bob cwrs gaiff ei gyllido trwy'r grant fod ar gael yn ddwyieithog [mewn eithriadau prin yn unig y rhoddir ystyriaeth i gefnogi cyrsiau fydd ar gael mewn un iaith yn unig]. ○ Hyrwyddir a chyfrennir i waith y Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg rhanbarthol a Ffora Cymru. Llwyddwyd i ehangu'r cyd-weithio traws-ffiniol ac mae nifer o bartneriaid lleol wedi bod yn greiddiol i'r gwaith o ddarparu cefnogaeth, cyngor ac arweiniad i sefydliad tu hwnt i'r ardal. ○ Parheir i bennu rhaglen waith flynyddol parthed datblygu adnoddau e-ddysgu rhyngweithiol dwyieithog trwy waith Canolfan e-ddysgu'r Rhwydwaith 14-19 (Y GRe). Hyrwyddir y defnydd o'r adnoddau hyn trwy Grŵp Defnyddwyr sydd yn cynnwys cynrychiolwyr o bob ysgol a thrwy raglen hyfforddiant flynyddol. ○ Mae pob ysgol yn sicrhau bod pob disgybl CA4 yn gwneud defnydd o'r Cynllun Llwybr Dysgu unigol sydd ar gael yn ddwyieithog i gofnodi ei lwybr dysgu (yn cynnwys y cyrsiau astudio mae ganddo'r hawl i'w hastudio a'r cymorth personol sydd ar gael). 	<p>cyrsiau a ddarperir.</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Sicrhau bod cyrsiau galwedigaethol cydweithredol a ariennir trwy grant Llwybrau Dysgu ar gael yn y Gymraeg/dwyieithog [gan gynnwys unrhyw gyrsiau a ddarperir gan y Colegau] 																	
<p>Cynyddu canran y myfyrwyr 16-19 oed sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ○ Mae'r tabl isod yn dangos % myfyrwyr 16-19 oed sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. <table border="1" data-bbox="427 906 1509 1038"> <thead> <tr> <th colspan="4">% myfyrwyr 16-19 oed sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion</th> </tr> <tr> <th></th> <th>2010</th> <th>2011</th> <th>2012</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Cyfrwng y Gymraeg</td> <td>35.4</td> <td>37.6</td> <td>38.8</td> </tr> <tr> <td>Dwyieithog</td> <td>52.2</td> <td>50.5</td> <td>56.7</td> </tr> </tbody> </table> <p><i>Mae rhai cyfyngiadau ar y data. Mae pedwar cod ar gyfer Welsh Medium Learning Activity, sef [C] (Cymraeg), [E] (English), [P] (Dwyieithog) ac [R] (grwpiau iaith gwahanol yn yr un dosbarth). Mae [C] a [P] wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad uchod ond nid [R] gan na ellir gwahaniaethu rhwng y rhai cyfrwng Cymraeg/Saesneg yn yr un grwp. Noder bod pob pwnc UG/A [gan gynnwys BAC a SHC] wedi'u cynnwys.</i></p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Gwna'r Rhwydwaith 14-19 ddefnydd o grant refeniw 14-19 i hyrwyddo darpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog ôl 16. Llwyddwyd i gynyddu'r ddarpariaeth alwedigaethol gydweithredol cyfrwng Cymraeg./dwyieithog 16+ (mewn Adeiladwaith a Lletygarwch) a thrwy hynny sicrhawyd dilyniant ieithyddol ar gyfer y darpariaethau cydweithredol galwedigaethol CA4 [ac eithrio mewn Cyfryngau Creadigol Gemau Cyfrifiadurol]. 	% myfyrwyr 16-19 oed sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion					2010	2011	2012	Cyfrwng y Gymraeg	35.4	37.6	38.8	Dwyieithog	52.2	50.5	56.7	<p>Yn flynyddol :</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Gweithio gyda'r prif randdeiliaid i sicrhau bod yr arlwy 16+ yn caniatáu mynediad i ddarpariaeth ddwyieithog ar draws y pynciau ○ Gweithio gyda'r partneriaid allweddol i gynyddu'r ganran sy'n dewis dilyn eu cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg/dwyieithog 	
% myfyrwyr 16-19 oed sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion																			
	2010	2011	2012																
Cyfrwng y Gymraeg	35.4	37.6	38.8																
Dwyieithog	52.2	50.5	56.7																

	<p>○ Parheir i ychwanegu at yr ystod o adnoddau e-ddysgu rhyngweithiol dwyieithog o ansawdd uchel iawn wedi'u datblygu trwy waith Canolfan e-ddysgu'r Rhwydwaith 14-19 (Y GRE) a hyrwyddir yr addysgeg gefnogol trwy ddatblygiadau'r 'Moodle'.</p> <p>○ Arweinir y gwaith cynllunio strategol sydd ei angen yng nghyd-destun gofynion agenda Trawsnewid gan y Bartneriaeth Ddysgu 16+. Un o'r prif ffrydiau gwaith fydd adnabod effaith tebygol model cydweithredol ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog. Rhoddir sylw hefyd i adnabod y prif ffactorau sy'n dylanwadu ar ddewis cyfrwng dysgu 16+.</p> <p>○ O fis Ionawr 2013 bydd y Bartneriaeth Ddysgu 16+ yn adnabod anghenion ar gyfer Bwrdd Arweiniol Consortiwm Dysgu 16-19 Gwynedd ac Ynys Môn. Bydd cam 1 Cylch Cynllunio a Monitro'r Consortiwm Dysgu yn ystyried data am gyfrwng iaith wrth lunio blaenoriaethau strategol ar gyfer Cam 2 (Gosod disgwyliad a chyfeiriad)</p> <table border="1" data-bbox="416 596 976 691"> <thead> <tr> <th>Blwyddyn</th> <th>2009</th> <th>2010</th> <th>2011</th> <th>2012</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>n2+</td> <td>461</td> <td>439</td> <td>442</td> <td>506</td> </tr> <tr> <td>n</td> <td>722</td> <td>717</td> <td>729</td> <td>748</td> </tr> </tbody> </table> <p>○ Mae angen rhoi sylw pellach i :</p> <ul style="list-style-type: none"> • canran dysgwyr 16-19 sy'n astudio 2 neu fwy o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg /yn ddwyieithog e.e. elfennau o gymwysterau/modiwlau • barn am y ganran hon ac a oes angen unrhyw weithredu penodol mewn partneriaeth gydag ysgolion i'w chynnal neu ei chynyddu 	Blwyddyn	2009	2010	2011	2012	n2+	461	439	442	506	n	722	717	729	748		
Blwyddyn	2009	2010	2011	2012														
n2+	461	439	442	506														
n	722	717	729	748														
<p>Gweithio drwy rwydweithiau ardal 14-19 a Fforymau 14-19 er mwyn cynnal a gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg.</p>	<p>Gweler y sylwadau uchod parthed y berthynas gyda'r Rhwydwaith 14-19 a'r fforymau rhanbarthol/cenedlaethol.</p>																	
<p>Casglu a defnyddio data ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg 14-19 Cynllunio ar gyfer darpariaeth ôl-16 o fewn partneriaethau.</p>	<p>○ Mae'r Rhwydwaith 14-19 trwy ei grwpiau partneriaeth yn cynllunio ar gyfer darpariaeth ol 16 cyfrwng Cymraeg yn unol a phrotocolau cytunedig.</p> <p>○ Mae'r Bartneriaeth Ddysgu 16+ yn rhoi sylw wrth gynllunio i effaith tebygol model cydweithredol ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog ac i adnabod y prif ffactorau sy'n dylanwadu ar ddewis cyfrwng dysgu 16+.</p> <p>○ Fel rhan o'r paratodau tuag at sefyDLu Consortiwm Dysgu 16-19 Gwynedd ac Ynys Môn rhoddir sylw i greu cyfundrefnau casglu data mwy effeithiol lleol fydd wedyn yn gallu dylanwadau ar gynllunio dapraaiethau cydweithredol ôl 16.</p> <p>○ Yn y ddarpariaeth gydweithredol gydag ysgolion Ynys Môn, mae'r nifer sydd yn gallu dilyn cyrsiau ar y cyd yn gyfyngedig i uchafswm o 15 dysgwr y cwrs.</p> <p>○ Mae darpariaeth gydweithredol rhwng ysgolion Arfon yn cynnig mynediad i gyrsiau academiaidd</p>																	

	<p>trwy gyfrwng y Gymraeg : Addysg Gorfforol (15), Cymdeithaseg (13), Drama (5), Daearyddiaeth (6), Hanes (18) , Seicoleg (27). Mewn rhai achosion mae'r ddarpariaeth hon yn weithredol ar draws ardal Môn/Menai.</p> <ul style="list-style-type: none"> o Mae sicrhau dilyniant ieithyddol priodol yn rhan greiddiol o gylch gorchwyl y Grŵp Partneriaeth ac Is-grŵp Ansawdd Rhwydwaith 14-19 a bydd data parthed nifer cyrsiau/nifer dysgwyr yn cael ei drafod yn ystod y flwyddyn i wirio cydymffurfiad ac i fesur cynnydd. <p>Dengys y tabl y nifer a'r ganran myfyrwyr sy'n astudio'r BAC drwy gyfrwng y Gymraeg (C), Dwyieithog (P), mewn dosbarth iaith gymysg (R) a Saesneg (E)</p> <table border="1" style="margin-left: auto; margin-right: auto;"> <thead> <tr> <th></th> <th>2009</th> <th>2010</th> <th>2011</th> <th>2012</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>N</td> <td>722</td> <td>717</td> <td>729</td> <td>748</td> </tr> <tr> <td>C</td> <td>38 (5.3%)</td> <td>73 (10.2%)</td> <td>84 (11.5%)</td> <td>91 (12.2%)</td> </tr> <tr> <td>P</td> <td>154 (21.3%)</td> <td>158 (22%)</td> <td>134 (18.4%)</td> <td>205 (27.4%)</td> </tr> <tr> <td>R</td> <td>62 (8.6%)</td> <td>64 (8.9%)</td> <td>86 (11.8%)</td> <td>127 (17%)</td> </tr> <tr> <td>E</td> <td>0 (0%)</td> <td>0 (0%)</td> <td>0 (0%)</td> <td>0 (0%)</td> </tr> </tbody> </table>		2009	2010	2011	2012	N	722	717	729	748	C	38 (5.3%)	73 (10.2%)	84 (11.5%)	91 (12.2%)	P	154 (21.3%)	158 (22%)	134 (18.4%)	205 (27.4%)	R	62 (8.6%)	64 (8.9%)	86 (11.8%)	127 (17%)	E	0 (0%)	0 (0%)	0 (0%)	0 (0%)		
	2009	2010	2011	2012																													
N	722	717	729	748																													
C	38 (5.3%)	73 (10.2%)	84 (11.5%)	91 (12.2%)																													
P	154 (21.3%)	158 (22%)	134 (18.4%)	205 (27.4%)																													
R	62 (8.6%)	64 (8.9%)	86 (11.8%)	127 (17%)																													
E	0 (0%)	0 (0%)	0 (0%)	0 (0%)																													

Deilliant 5: Mwy o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg. <i>Gweler Atodiad 5</i>		TARGED:																			
A. Amcan	B. Perfformiad cyfredol (Cwestiynau i'w hateb)	C. Gweithredu	Ch. Cynnydd																		
Gwella gwaith sgiliau llythrennedd Cymraeg.	<ul style="list-style-type: none"> o Bydd arweiniad diweddar ESTYN 'Strategaeth ac arweiniad ar gyfer arolygu llythrennedd ar gyfer disgyblion rhwng 3 – 18 oed' (Medi 2011) a'r Fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol (2012) yn chwarae rhan amlwg yng nghynlluniau'r Awdurdod i wella sgiliau llythrennedd disgyblion yn y Gymraeg o Cefnogir ysgolion gan roi sylw i ddatblygiad llythrennedd yn gyffredinol ynghyd â datblygiad sgiliau yn y Gymraeg. Gwneir hyn drwy hyrwyddo cymunedau dysgu a datblygiad proffesiynol fydd yn rhoi sylw i agweddau perthnasol. o Athrawon Neilltuol: Yn unol â'r cynlluniau cenedlaethol, y mae nifer o athrawon profiadol wedi eu hadnabod a'u hyfforddi ar gyfer cefnogi ysgolion cynradd ac uwchradd mewn meysydd neu agweddau o lythrennedd sy'n peri pryder. 	<ul style="list-style-type: none"> • Hyrwyddo cymunedau dysgu gan roi sylw penodol i'r elfennau hynny o lythrennedd sydd angen fwyaf o sylw. Yn flynyddol 																			
Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Iaith Gyntaf.	<table border="1" style="margin-left: auto; margin-right: auto;"> <thead> <tr> <th colspan="6" style="text-align: center;">% disgyblion Y Cyfnod Sylfaen enillodd ddeilliant 5+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg</th> </tr> <tr> <th></th> <th>2008</th> <th>2009</th> <th>2010</th> <th>2011</th> <th>2012</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> </tr> </tbody> </table>	% disgyblion Y Cyfnod Sylfaen enillodd ddeilliant 5+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg							2008	2009	2010	2011	2012								
% disgyblion Y Cyfnod Sylfaen enillodd ddeilliant 5+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg																					
	2008	2009	2010	2011	2012																

	<table border="1"> <tr> <td>Lefel 2+/Deilliant 5+</td> <td>1076/1222 (88.1%)</td> <td>1046/1148 (91.1%)</td> <td>1044/1155 (90.4%)</td> <td>1023/1129 (90.6%)</td> <td>1035/1182 (87.6%)</td> </tr> </table> <table border="1"> <tr> <th colspan="7">% disgyblion CA2 enillodd lefel 4+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg</th> </tr> <tr> <td></td> <td>2007</td> <td>2008</td> <td>2009</td> <td>2010</td> <td>2011</td> <td>2012</td> </tr> <tr> <td>% lefel 4+</td> <td>909/1255 (72.4%)</td> <td>1084/1378 (78.7%)</td> <td>1076/1309 (82.2%)</td> <td>1066/1272 (83.8%)</td> <td>1046/1269 (82.4%)</td> <td>1035/1241 (83.4%)</td> </tr> </table> <table border="1"> <tr> <th colspan="7">% disgyblion CA3 enillodd lefel 5+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg</th> </tr> <tr> <td></td> <td>2007</td> <td>2008</td> <td>2009</td> <td>2010</td> <td>2011</td> <td>2012</td> </tr> <tr> <td>% lefel 5+</td> <td>890/1159 (76.8%)</td> <td>857/1150 (74.5%)</td> <td>885/1135 (78.0%)</td> <td>808/1054 (76.7%)</td> <td>984/1185 (83.0%)</td> <td>996/1154 (86.3%)</td> </tr> </table> <table border="1"> <tr> <th colspan="9">% disgyblion CA4 sy'n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg</th> </tr> <tr> <td></td> <td>2005</td> <td>2006</td> <td>2007</td> <td>2008</td> <td>2009</td> <td>2010</td> <td>2011</td> <td>2012</td> </tr> <tr> <td>% A*-C</td> <td>837/1127 (74.3%)</td> <td>823/1109 (74.2%)</td> <td>798/1107 (72.1%)</td> <td>829/1117 (74.2%)</td> <td>803/1118 (71.8%)</td> <td>777/1099 (70.7%)</td> <td>808/1116 (72.4%)</td> <td>749/1009 (74.2%)</td> </tr> </table> <p>o Fel nodir uchod mae'r % sy'n cael asesiad Cymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd y cyfnodau allweddol a'r % sy'n cyrraedd y lefelau/graddau digwyliedig yn dda. Serch hynny, mae angen parhau i geisio gwella a chodi safonau yn y Gymraeg ac yn y cyd-destun hwn bydd disgwyl i bob ysgol uwchradd ddefnyddio'r carfanau iaith i gynllunio'n ieithyddol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu. Rhagwelir hefyd bydd cydweithio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd o ran sicrhau cyd-ddealltwriaeth o lefelau /asesiadau a pharatoi proffiliau ar gyfer eu hachredu yn gymorth i'r cyfeiriad hwn.</p>	Lefel 2+/Deilliant 5+	1076/1222 (88.1%)	1046/1148 (91.1%)	1044/1155 (90.4%)	1023/1129 (90.6%)	1035/1182 (87.6%)	% disgyblion CA2 enillodd lefel 4+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg								2007	2008	2009	2010	2011	2012	% lefel 4+	909/1255 (72.4%)	1084/1378 (78.7%)	1076/1309 (82.2%)	1066/1272 (83.8%)	1046/1269 (82.4%)	1035/1241 (83.4%)	% disgyblion CA3 enillodd lefel 5+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg								2007	2008	2009	2010	2011	2012	% lefel 5+	890/1159 (76.8%)	857/1150 (74.5%)	885/1135 (78.0%)	808/1054 (76.7%)	984/1185 (83.0%)	996/1154 (86.3%)	% disgyblion CA4 sy'n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg										2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012	% A*-C	837/1127 (74.3%)	823/1109 (74.2%)	798/1107 (72.1%)	829/1117 (74.2%)	803/1118 (71.8%)	777/1099 (70.7%)	808/1116 (72.4%)	749/1009 (74.2%)	
Lefel 2+/Deilliant 5+	1076/1222 (88.1%)	1046/1148 (91.1%)	1044/1155 (90.4%)	1023/1129 (90.6%)	1035/1182 (87.6%)																																																																								
% disgyblion CA2 enillodd lefel 4+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg																																																																													
	2007	2008	2009	2010	2011	2012																																																																							
% lefel 4+	909/1255 (72.4%)	1084/1378 (78.7%)	1076/1309 (82.2%)	1066/1272 (83.8%)	1046/1269 (82.4%)	1035/1241 (83.4%)																																																																							
% disgyblion CA3 enillodd lefel 5+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg																																																																													
	2007	2008	2009	2010	2011	2012																																																																							
% lefel 5+	890/1159 (76.8%)	857/1150 (74.5%)	885/1135 (78.0%)	808/1054 (76.7%)	984/1185 (83.0%)	996/1154 (86.3%)																																																																							
% disgyblion CA4 sy'n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg																																																																													
	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012																																																																					
% A*-C	837/1127 (74.3%)	823/1109 (74.2%)	798/1107 (72.1%)	829/1117 (74.2%)	803/1118 (71.8%)	777/1099 (70.7%)	808/1116 (72.4%)	749/1009 (74.2%)																																																																					
<p>Cynyddu cyfleon i ddysgwyr o bob oedran i ymarfer eu Cymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth.</p>	<p>o Cychwynnwyd ar y gwaith pwysig o hyrwyddo'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg mewn ysgolion.</p> <p>o Sefydlwyd gweithgor 'Hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngwynedd' dan gadeiryddiaeth y Pennaeth Addysg yn dilyn canfyddiadau ardrawiad iaith yn rhai o ysgolion cynradd Gwynedd. Mae hwn yn cynnwys cynrychiolaeth o'r ysgolion cynradd, y Cyngor, yr Adran Addysg ac eraill. Trafodwyd dulliau o geisio hyrwyddo'r Gymraeg tu allan i furiau'r dosbarth.</p> <p>Cynhaliwyd cynhadledd Ffactor C ym Mehefin 2011 ac fe lanswyd Siarter Iaith ar gyfer ysgolion yn y gynhadledd.</p> <p>Disgwylir i bob ysgol ymroi i'r gwaith hwn ond canolbwyntiwyd ar dair ysgol yn y gwahanol ranbarthau yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu. Mae gwaith ar droed ymhob ysgol yn awr.</p> <p>Cynhelir cwrs hyfforddi'r gweithlu i'r holl athrawon a'r cymorthyddion yn nalgylch y 3 ysgol beilot (Y Traeth, Edern, Tregarth) yn nhymor yr Hydref 2012 a Gwanwyn 2013 ac arferir effaith yr hyfforddiant a'r gweithredu yn dilyn hynny gan Adran Addysg Prifysgol Bangor.</p>	<p>o Cydweithio gyda Hunaniaith ac asiantaethau eraill er mwyn atgyfnerthu'r defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol.</p> <p>Medi 2012 ymlaen</p>																																																																											

<p>Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Ail Iaith.</p>	<p>o Dengys y tablau isod niferoedd disgyblion aseswyd yn y Gymraeg fel Ail Iaith ar ddiwedd CA2 a CA3.</p> <table border="1" data-bbox="331 225 1375 293"> <tr> <td>CA2</td> <td>2007</td> <td>2008</td> <td>2009</td> <td>2010</td> <td>2011</td> <td>2012</td> </tr> <tr> <td>L4+</td> <td>0/0</td> <td>0/0</td> <td>0/0</td> <td>0/0</td> <td>0/4</td> <td>0/3</td> </tr> </table> <table border="1" data-bbox="331 320 1375 421"> <tr> <td>CA3</td> <td>2007</td> <td>2008</td> <td>2009</td> <td>2010</td> <td>2011</td> <td>2012</td> </tr> <tr> <td>L5+</td> <td>72/213 (33.8%)</td> <td>160/295 (54.2%)</td> <td>187/293 (63.8%)</td> <td>136/238 (57.1%)</td> <td>139/246 (56.5%)</td> <td>127/191 (66.5%)</td> </tr> </table> <p>o Ni weithredwyd peilot ail iaith yn ysgolion Gwynedd.</p> <p>o Mae'r tabl isod yn nodi % canran disgyblion diwedd CA4 sy'n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Ail Iaith (cwrw llawn).</p> <table border="1" data-bbox="331 512 1375 608"> <tr> <td></td> <td>2007</td> <td>2008</td> <td>2009</td> <td>2010</td> <td>2011</td> <td>2012</td> </tr> <tr> <td>A*-C</td> <td>163/208 (78.4%)</td> <td>213/268 (79.5%)</td> <td>179/215 (83.3%)</td> <td>200/255 (78.4%)</td> <td>195/237 (82.2%)</td> <td>157/193 (81.3%)</td> </tr> </table> <p>o Mae'r nifer yn fach ac mae % llwyddiant yn dda.</p> <p>o Nid yw ysgolion Gwynedd yn cynnig y cwrs Cymraeg Ail Iaith (cwrw byr).</p>	CA2	2007	2008	2009	2010	2011	2012	L4+	0/0	0/0	0/0	0/0	0/4	0/3	CA3	2007	2008	2009	2010	2011	2012	L5+	72/213 (33.8%)	160/295 (54.2%)	187/293 (63.8%)	136/238 (57.1%)	139/246 (56.5%)	127/191 (66.5%)		2007	2008	2009	2010	2011	2012	A*-C	163/208 (78.4%)	213/268 (79.5%)	179/215 (83.3%)	200/255 (78.4%)	195/237 (82.2%)	157/193 (81.3%)		
CA2	2007	2008	2009	2010	2011	2012																																							
L4+	0/0	0/0	0/0	0/0	0/4	0/3																																							
CA3	2007	2008	2009	2010	2011	2012																																							
L5+	72/213 (33.8%)	160/295 (54.2%)	187/293 (63.8%)	136/238 (57.1%)	139/246 (56.5%)	127/191 (66.5%)																																							
	2007	2008	2009	2010	2011	2012																																							
A*-C	163/208 (78.4%)	213/268 (79.5%)	179/215 (83.3%)	200/255 (78.4%)	195/237 (82.2%)	157/193 (81.3%)																																							
<p>Cynyddu cyfleon i ddsygwyr o bob oedran i ymarfer eu Cymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth.</p>	<p>o Gweler y sylw uchod mewn perthynas a hyrwyddo'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg.</p> <p>o Trwy gynnig cymhorthdal i ysgolion cynradd yr ardaloedd lle mae angen datblygiadau pellach drwy grant y Gymraeg yn flynyddol, mae gweithgareddau allgyrsiol yn cael eu cynnig lle bydd y disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol e.e. clybiau celf, garddio, coginio ayyb. Derbyniwyd gwerthusiadau calonolog iawn.</p>																																												
<p>Cynyddu cofrestrïadau Cymraeg Safon Uwch Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith fel canran o gofrestrïadau TGAU Cymraeg a Cymraeg Ail Iaith.</p>	<p>o Dengys y tabl isod nifer ymgeiswyr TGAU Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith sy'n mynd ymlaen i astudio Safon Uwch.</p> <table border="1" data-bbox="656 954 1223 1107"> <tr> <td></td> <td>2009</td> <td>2010</td> <td>2011</td> <td>2012</td> </tr> <tr> <td>Iaith Gyntaf</td> <td>67/259 (25.9%)</td> <td>63/269 (23.4%)</td> <td>52/279 (18.6%)</td> <td>41/265 (15.5%)</td> </tr> <tr> <td>Ail iaith</td> <td>2/39 (5.1%)</td> <td>6/46 (13%)</td> <td>1/58 (1.7%)</td> <td>3/60 (5%)</td> </tr> </table> <p>o Parhau i weithio gydag adrannau Cymraeg i geisio annog disgyblion i barhau gyda'r Gymraeg hyd Safon Uwch wedi iddynt lwyddo yn TGAU. Ceisio pwysleisio manteision y Gymraeg fel pwnc Safon Uwch ac yn bwnc i'w astudio ymhellach, yn ogystal â cheisio gwneud y pwnc yn apelgar a pherthnasol i ddisgyblion – hyn drwy ddulliau dysgu ac addysgu amrywiol a defnydd effeithiol o adnoddau perthnasol.</p>		2009	2010	2011	2012	Iaith Gyntaf	67/259 (25.9%)	63/269 (23.4%)	52/279 (18.6%)	41/265 (15.5%)	Ail iaith	2/39 (5.1%)	6/46 (13%)	1/58 (1.7%)	3/60 (5%)	<p>Cysylltu gyda Choleg M-D</p>																												
	2009	2010	2011	2012																																									
Iaith Gyntaf	67/259 (25.9%)	63/269 (23.4%)	52/279 (18.6%)	41/265 (15.5%)																																									
Ail iaith	2/39 (5.1%)	6/46 (13%)	1/58 (1.7%)	3/60 (5%)																																									

Deilliant 6: Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol cyfrwng Cymraeg		TARGED: 100%	
A. Amcan	B. Perfformiad cyfredol (Cwestiynau i'w hateb)	C. Gweithredu	Ch. Cynnydd
Gwella darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Cyfrwng Cymraeg.	<ul style="list-style-type: none"> ○ Darperir gwasanaethau AAA y Sir yn bennaf trwy'r Cydbwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig [CBAAA], sef trefniant ar y cyd â Chyngor Sir Ynys Môn. Mae staff y CBAAA yn cynnwys athrawon arbenigol, seicolegwyr addysgol, cydlynnydd datganiadau a staff gweinyddol/clerigol. Yn sgil hyn, mae gan ddisgyblion a'u rhieni fynediad i wasanaeth sydd yn gwbl ddwyieithog ac mae'r holl broses o lunio Datganiad AAA, gan gynnwys y ddogfennaeth, yn cael ei chynnig i rieni/gwarchodwyr yn Gymraeg neu yn Saesneg. ○ Cydymffurfir yn llwyr â Chôd Ymarfer AAA Cymru. Sicrheir cydraddoldeb o ran darpariaeth iaith ym mhob gwasanaeth a chanfyddir beth yw dewis iaith rhieni yn gynnar yn y broses o ddelio â phlentyn sydd ag AAA. Cynhelir asesiadau yn newis iaith y rhieni a chymerir camau i sicrhau bod pawb sydd a wnelont â'r broses yn cael gwybod am anghenion iaith y plentyn. Cydymffurfir â'r gofynion hefyd o safbwynt darparu cynlluniau addysg unigol yn ddwyieithog a darperir pob gohebiaeth a deunydd ysgrifenedig naill ai'n ddwyieithog neu'n y Gymraeg. Darperir adnoddau cyfrwng Cymraeg neu dwyieithog ar gyfer disgyblion. ○ Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gael ar gyfer yr holl ystod ac amrywiaeth o AAA. Darperir gwasanaeth seicoleg addysg dwyieithog i Ysgolion Arbennig a phrif-ffrwd. Un anhawster sydd yn codi yw sicrhau cyflenwad digonol o seicolegwyr addysg dwyieithog. ○ Mae'n ddisgwyliad i gynorthwywyr cynnal dysgu fod yn ddwyieithog. Mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddiant ar eu cyfer hefyd yn ddwyieithog. ○ Mae gan yr Awdurdod gytundeb lefel gwasanaeth gyda SNAP. Sicrheir mewn cyfarfodydd cyswllt â hwynt eu bod yn ymwybodol o'r gofynion arnynt o safbwynt yr iaith Gymraeg. 	<ul style="list-style-type: none"> ○ Pob disgybl gydag anghenion dysgu ychwanegol yn cael mynediad at wasanaethau cyfrwng Cymraeg. <p>Yn flynyddol</p>	

Deilliant 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus		TARGED:	
A. Amcan	B. Perfformiad cyfredol (Cwestiynau i'w hateb)	C. Targedau	D. Cynnydd
Sicrhau cyflenwad digonol o ymarferwyr ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg.	<ul style="list-style-type: none"> ○ Er nad oes ffigwr penodol ar gael, nid yw'r Adran Addysg yn ymwybodol o unrhyw swyddi <ul style="list-style-type: none"> - cynradd sy'n gofyn am y gallu i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg - uwchradd sy'n gofyn am y gallu i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg - swyddi uwchradd i ddysgu Cymraeg Ail Iaith - swyddi cynorthwywyr dosbarth/dysgu ar gyfer gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg oedd yn wag ar ddechrau Medi 2012. ○ Mae trefniadau hyfforddiant dwyieithog o ansawdd trwy gyfrwng rhaglen HMS ar gael i staff yr Awdurdod ac mae'r gwasanaethau a ddarperir yn hollol ddwyieithog. 		

	<ul style="list-style-type: none"> ○ Wrth hysbysebu swyddi mae'r Awdurdod yn datgan ei bod yn ofynnol i ddeiliaid swyddi allu cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg i lefel briodol y swydd. ○ Anogir staff i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol ac fe'u rhyddheir, os bydd angen, i ddysgu neu i loywi eu sgiliau. Mae'r Cyngor yn darparu ar gyfer hyfforddi staff ar sawl lefel. ○ Mae Swyddogion yr Adran Addysg yn cynnig cyngor a chynhaliath reolaethol a phersonél i gyrff llywodraethu ysgolion. Mae rhaglen hyfforddi Llywodraethwyr yn rhoi sylw i faterion staffio yn ogystal â rôl a chyfrifoldebau cyffredinol llywodraethwyr. 		
<p>Gwella sgiliau ieithyddol ymarferwyr. Gwella sgiliau methodoleg ymarferwyr</p>	<ul style="list-style-type: none"> ○ Yn gyfredol, mae hyfforddiant iaith ar gael i'r holl athrawon / cymorthyddion fel rhan o'r arlwy a gynigir ar gyfer ysgolion, a chynigir y dewis o gyrsiau iaith mwy dwys (HADA 5 diwrnod) yn flynyddol yn ogystal. Rhagwelir y bydd hyn yn digwydd ar ffurf Cymunedau Dysgu Proffesiynol yn y dyfodol. ○ Targedir athrawon ysgolion yr ardaloedd lle mae angen datblygiad pellach drwy gynnal cymunedau dysgu proffesiynol er mwyn hyrwyddo datblygiad y Gymraeg, sy'n rhoi sylw i ddatblygu sgiliau addysgu / methodoleg, a chanolbwyntio yn ogystal ar agweddau o bynciau ar draws y cwricwlwm. ○ Yn ogystal, gwneir pob ymdrech i annog mwy o athrawon a chynorthwywyr dosbarth i fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael i loywi sgiliau cyfathrebu yn y Gymraeg e.e. Cynllun Sabothol: Canolfan Bedwyr a Chanolfan Addysg Oedolion Prifysgol Bangor. ○ Dechreuwyd ar y gwaith o sefydlu rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant i'r gweithlu cynradd i gyd er mwyn cynorthwyo ysgolion i fedru gweithredu gofynion y Siarter Iaith. 		
<p>Integreiddio ystyriaethau cyfrwng Cymraeg ym mhob agwedd ar y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion</p>	<ul style="list-style-type: none"> ○ Mae Cymunedau Dysgu Proffesiynol ar waith yn yr ysgolion ac yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. ○ Bydd yn ddisgwyliad i'r Arweinwyr System a'r Uwch Arweinyddion a fydd yn weithredol yng Ngwynedd gyflawni eu dyletswyddau yn ddwyieithog. 		

Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach

Pwrpas yr Atodiad hwn yw cyflwyno rhai cynigion ar gyfer ymateb i un o brif flaenoriaethau'r Cyngor, sef hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Mae Strategaeth Iaith Gwynedd yn cydnabod dylanwad addysg ynghyd â chyfleoedd anffurfiol i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng cymdeithasol fel bod modd iddynt ddatblygu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg a meithrin agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith y tu hwnt i sefyllfaoedd addysg ffurfiol.

Cyflwynir y cynigion isod a bwriedir eu trafod ymhellach gyda Hunaniaith ac ysgolion y sir gyda'r nod o ddatblygu a gweithredu cynlluniau i ddylanwadu'n gadarnhaol ar agweddau a defnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc yn ystod cyfnod gweithredu'r Cynllun Addysg hwn.

Cyffredinol

Taflen yn hyrwyddo manteision addysg Gymraeg/ddwyieithog.

Llunio Siarter Iaith i bob ysgol yng Ngwynedd.

Cyfnod Sylfaen

Datblygu a gweithredu cynllun i wobrwyo defnydd o'r Gymraeg fel rhan o agenda ehangach i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol

Cydweithio gyda'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion i hyrwyddo cyrsiau Hwyl i'r Teulu/Cymraeg i'r Teulu sydd yn targedu rhieni plant y Cyfnod Sylfaen.

Cynradd

Dynodi cyfrifoldeb i bob Cyngor Ysgol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

Sefydlu Pencampwyr Iaith neu gynllun cyffelyb i'r 'buddy' buarth.

Datblygu rhaglen o siaradwyr gwadd Cymraeg a Chymreig i ymweld â disgyblion ysgolion cynradd er mwyn cynyddu statws, bri a balcher i'r Gymraeg a'r hunaniaeth Gymreig ymysg plant a phobl ifanc.

Uwchradd

Dynodi cyfrifoldeb i bob Cyngor Ysgol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

Sefydlu Pencampwyr Iaith.

Datblygu rhaglen o siaradwyr gwadd Cymraeg a Chymreig i ymweld â disgyblion ysgolion uwchradd er mwyn cynyddu statws, bri a balcher i'r Gymraeg a'r hunaniaeth Gymreig ymysg plant a phobl ifanc.

Gweithlu

Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith.

Hyfforddiant i wella sgiliau iaith staff ategol ysgolion.

Cynnal hyfforddiant i'r gweithlu er mwyn sicrhau eu dealltwriaeth o fuddiannau caffael iaith a dulliau addas a sensitif o hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc.

Llywodraethwyr

Annog Llywodraethwyr i ddynodi aelod i fod yn gyfrifol am hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol.

Adran 3: Sylwebaeth a nodiadau pellach

Atodiad 2: Grant y Gymraeg mewn Addysg, Datblygu'r Gweithlu a Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Bydd y cais am grant ar gyfer y Gymraeg yn ategu ac yn adlewyrchu gweledigaeth yr Awurdod ar gyfer addysg Gymraeg yng Ngwynedd a'r ddarpariaeth a ddisgrifir yn y Cynllun hwn. Mae hyn yn seiliedig ar amcanion a deilliannau y Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg.

Mae blaenoriaethau gwariant 2012-13 yn seiliedig ar hyrwyddo a chefnogi y prif strategaethau isod :

- Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg
- Codi safonau llythrennedd yn yr iaith Gymraeg
- Lleihau effaith tlodi ar gyraeddiad addysgol

Yng nghyd-destun codi safonau llythrennedd a lleihau effaith tlodi, bydd y gweithgareddau a bennir trwy gyfrwng y grant yn ychwanegu gwerth i'r hyn fydd yn cael ei ariannu trwy'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion.

Bydd yr awdurdod yn gweithio ar y cyd gyda Chonsortium Gogledd Cymru i ddatblygu partneriaethau rhanbarthol ac is-ranbarthol. Bydd y strategaeth hon yn cael ei datblygu ymhellach erbyn 2013-14. Mae datganiad o fwriad mewn perthynas â'r cyd-weithio eisoes wedi'i anfon i sylw LIC.

Yn ystod 2012-13 cynllunnir i gefnogi'r blaenoriaethau isod trwy gyfrwng Grant y Gymraeg [i'w cadarnhau'n derfynol].

Deilliant 1: Mwy o blant saith mlwydd oed yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg

Parhau i gynnig darpariaeth benodol ar gyfer datblygu'r Gymraeg mewn ardaloedd Seisnigedig (yn cynnwys dalgylch Bangor) gan weithio ar y cyd â sefydliadau Môn :

- Cyflwyno un diwrnod o hyfforddiant ar fethodoleg cyflwyno iaith / pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg i athrawon ysgolion cynradd yr ardaloedd Seisnigedig.
- Cefnogi hyd at 15 ysgol i ddatblygu arlwy gyfothocach o weithgareddau allgyrsiol trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Sefydlu Cymuned Ddysgu Broffesiynol i gyd-weithio a chyd-ddatblygu adnoddau ar gyfer cyflwyno'r Gymraeg yn effeithiol mewn ardaloedd Seisnigedig.

Deilliant 2: Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau iaith ar ôl trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd

Cyflwyno arweiniad, hyfforddiant a chefnogaeth i athrawon ysgolion uwchradd i wella lefelau cyflawniad dysgwyr mewn Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith. Bwriedir diwallu'r gofyn trwy :

- gyflwyno 2 ddiwrnod o hyfforddiant ar gyfer CIG a CAI
- hyrwyddo Cymunedau Dysgu Proffesiynol fydd yn rhoi sylw i wella'r addysgu, y dysgu a'r asesu mewn gwrsi Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith

Cyflwyno arweiniad, hyfforddiant a chefnogaeth i athrawon ysgolion uwchradd i wella ansawdd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog ar draws y cwricwlwm yn CA3. Bwriedir diwallu'r gofyn trwy :

- gyflwyno 2 ddiwrnod o hyfforddiant ar gyfer pob athro a chymhorthydd uwchradd
- hyrwyddo Cymunedau Dysgu Proffesiynol fydd yn rhoi sylw i wella yr addysgu a'r dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg/dwyieithog [gan gynnwys gwaith y Grŵp Arfer Dda is ranbarthol]
- secondiad rhan amser i sicrhau cefnogaeth ac arweiniad briodol i hyrwyddo gwaith y CDP

Deilliant 3: Mwy o fyfyrwyr 14-16 mlwydd oed yn astudio am gymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg

Cyflwyno arweiniad, hyfforddiant a chefnogaeth i athrawon ysgolion uwchradd i wella ansawdd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog ar draws y cwricwlwm yn CA4. Bwriedir diwallu'r gofyn trwy :

- gyflwyno 2 ddiwrnod o hyfforddiant
- hyrwyddo Cymunedau Dysgu Proffesiynol fydd yn rhoi sylw i wella yr addysgu a'r dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg/dwyieithog [gan gynnwys gwaith y Grŵp Arfer Dda is ranbarthol]

Deilliant 4: Mwy o fyfyrwyr ôl-16 yn astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg

Gweithredu prosiect peilot gyda nifer cyfyngedig o ysgolion uwchradd [i'w cadarnhau] i gynyddu nifer myfyrwyr 16+ sy'n dilyn pynciau STEM trwy gyfrwng y Gymraeg. Darperir arweiniad a chefnogaeth ymgynghorol er mwyn hyrwyddo nifer o strategaethau a gweithdrefnau i ddatblygu'r Gymraeg o fewn y pwnc :

- adnabod elfennau/agweddau perthnasol i'r pwnc y dyldid rhoi sylw iddynt (Llafar/Darllen/Ysgrifennu) ee patrymau iaith; dulliau cyflwyno; uwch sgilio medrau ieithyddol staff; defnydd o destunau gwahanol; datblygu cyfleon a sgiliau ysgrifennu estynedig; hybu gwaith llafar; asesu/marcio iaith

- diffinio'r arweiniad ieithyddol sydd ei angen ar gyfer datblygu'r agweddau uchod
- darparu arweiniad a threalu uned enghreifftiol gyda'r Adran
- arfarnu'r gweithredu/ cynnydd dros gyfnod o amser ac effaith hyn ar safonau

Deiliant 5: Mwy o ddisgyblion o bob oedran â sgiliau gwell yn y Gymraeg

Parhau i gynnal 4 Canolfan Iaith Cynradd : Maesincla, Llanybi, Penrhyndeudraeth a Dolgellau

Parhau i gynnal y Ganolfan Iaith Uwchradd ar safle Ysgol Eifionydd

Parhau i hyrwyddo a chefnoi gwaith y Cyd-gysylltwyr Iaith Dalgylchol

Cyflwyno arweiniad, hyfforddiant a chefnogaeth i athrawon ysgolion cynradd i wella lefelau cyflawniad dysgwyr mewn Cymraeg fel pwnc ac i wella ansawdd y ddarpariaeth gwricwlaidd gyflwynir trwy gyfrwng y Gymraeg . Bwriedir diwallu'r gofyn trwy :

- gyflwyno 12 diwrnod o hyfforddiant clwstwr yn benodol ar wella lefelau cyflawniad dysgwyr mewn Cymraeg fel pwnc
- gyflwyno 57 diwrnod o hyfforddiant clwstwr i wella ansawdd y ddarpariaeth gwricwlaidd a gyflwynir trwy gyfrwng y Gymraeg (mathemateg, gwyddoniaeth, TGCh, DaT, Dyniaethau, cerdd, celf addysg gorfforol ac ABCh)
- hyrwyddo Cymunedau Dysgu Proffesiynol fydd yn rhoi sylw i wella'r addysgu, y dysgu a'r asesu mewn gwersi Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith
- secondiad rhan amser i sicrhau cefnogaeth ac arweiniad briodol i hyrwyddo gwaith y CDP

*** Bydd unrhyw secondiadau trwy'r grant yn cael eu cyd-gyllido ar lefel is-ranbarthol [Gwynedd/Môn] a bydd sesiynau hyfforddiant a deunyddiau cefnogol yn cael eu datblygu ar y cyd.*

*** Prosiect Trochi Tryfan yn ychwanegol i'r uchod*

Atodiad 3: Nifer a chanran y disgyblion sy'n mynychu lleoliadau cyfrwng Cymraeg nas cynhelir a gyllidir sy'n darparu'r cyfnod sylfaen sy'n trosglwyddo i ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog (nodwch os nad yw'r wybodaeth ar gael)

Enw'r lleoliad cyfrwng Cymraeg nas cynhelir gyllidir (Cylch Meithrin)	Nifer o lefydd ar gael	Nifer o blant sy'n mynychu(sef y nifer o blant a ariannwyd h.y. ariannwyd pedwar plentyn Tymor 1 a phedwar yr ail dymor gall y rhain fod yr un plant)	Canran y disgyblion sy'n trosglwyddo i ysgolion Cymraeg a dwyieithog
Cylch Meithrin Abererch	8	8	100%
Cylch Meithrin Beddgelert	2	2	100%
Cylch Meithrin Bethel	5	13	100%
Cylch Meithrin Blaenau Ffestiniog	13	20	100%
Cylch Meithrin Bontnewydd	14	17	100%
Cylch Meithrin Brynaerau	8	12	100%
Cylch Meithrin Bryn croes	4	9	100%
Cylch Meithrin Bryn crug	2	5	100%
Cylch Meithrin Caban Cegin	9	21	100%
Cylch Meithrin Caernarfon-Gelli	8	18	100%
Cylch Meithrin Carmel	4	5	100%
Cylch Meithrin Cefnfaes Bethesda	15	22	100%
Cylch Meithrin Chwilog	2	8	100%
Cylch Meithrin Coed Mawr	2	7	100%
Cylch Meithrin Corris	3	7	100%
Cylch Meithrin Criccieth	6	9	100%
Cylch Meithrin Deiniolen	9	13	100%
Cylch Meithrin Dinas	3	5	100%
Cylch Meithrin Dolgellau	12	19	100%
Cylch Meithrin Dolybont	1	1	100%
Cylch Meithrin Ffestiniog	5	7	100%
Cylch Meithrin Garndolbenmaen	5	7	100%
Cylch Meithrin Gellilydan	0	2	100%
Cylch Meithrin Gerlan	11	13	100%
Cylch Meithrin Harlech	4	6	100%
Cylch Meithrin Hiracl	1	9	100%
Cylch Meithrin Llanbedr	12	17	100%
Cylch Meithrin Llanbedrog	6	8	100%
Cylch Meithrin Llanberis	14	19	100%
Cylch Meithrin Llanengan	3	3	100%
Cylch Meithrin Llanllechid	5	13	100%
Cylch Meithrin Llanllyfni	1	4	100%
Cylch Meithrin Llanrug	6	14	100%
Cylch Meithrin Llanuwchllyn	11	32	100%
Cylch Meithrin Llanystumdwy	5	8	100%
Cylch Meithrin Maesincla	35	50	100%
Cylch Meithrin Maesywaen	16	37	100%
Cylch Meithrin Morfa Nefyn	7	12	100%

Eitem 7 - Atodiad 1

Cylch Meithrin Mynydd Llandygai	9	13	100%
Cylch Meithrin Nefyn	10	16	100%
Cylch Meithrin Penrhosgarnedd	14	18	100%
Cylch Meithrin Penrhyndeudraeth	8	15	100%
Cylch Meithrin Pentreuchaf	8	10	100%
Cylch Meithrin Penygroes	12	21	100%
Cylch Meithrin Porthmadog	17	28	100%
Cylch Meithrin Pwllheli	14	21	100%
Cylch Meithrin Rhostryfan	6	11	100%
Cylch Meithrin Sarnau A Llandderfel	16	28	100%
Cylch Meithrin Seiont A Pheblig	20	33	100%
Cylch Meithrin Talsarnau	3	6	100%
Cylch Meithrin Talybont	9	14	100%
Cylch Meithrin Talysarn	4	8	100%
Cylch Meithrin Trawsfynydd	4	5	100%
Cylch Meithrin Tregarth	11	16	100%
Cylch Meithrin Tremadog	8	11	100%
Cylch Meithrin Twthill	10	12	100%
Cylch Meithrin Tywyn	20	45	100%
Cylch Meithrin Waunfawr	8	10	100%
Cylch Meithrin Y Bala 1+ 2	23	83	100%
Cylch Meithrin Y Bermo	10	27	100%
Cylch Meithrin Y Felinheli	11	15	100%
Cylch Meithrin Y Ffor	9	13	100%
Cylch Meithrin Y Garnedd	12	24	100%
Cylch Meithrin Y Groeslon	8	16	100%
Cylch Meithrin Y Gromlech	9	27	100%
Cylch Meithrin Yr Eifl	0	1	100%
Margaret Barnard Playgroup	31	97	100%
Penrallt Playgroup	6	8	100%
Meithrinfa Menai	46		100%
Tir Na Nog	50		100%
Fairways Nursery	50		100%
Meithrinfa Seren Fach	34		100%
Pitian Patian	62		100%

Atodiad 4: Nifer a chanran y disgyblion mewn ysgolion cynradd Cymraeg a dwyieithog sy'n trosglwyddo i ysgolion uwchradd Cymraeg

Fel nodir yn y cynllun mae pob disgybl yn trosglwyddo i ysgolion uwchradd dwyieithog.

**Atodiad 5: Cyrhaeddiad a pherfformiad mewn Cymraeg Ail Iaith
(Dylid darparu'r wybodaeth hon ar lefel All)
Blwyddyn: 2012**

Cyfnod Allweddol 2

	Nifer y disgyblion	Canran y disgyblion	Canran sy'n cyrraedd Lefel 4
Aseidiadau athro mewn Cymraeg Ail Iaith ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2	1238	3/1238 (0.24%)	0%

Cyfnod Allweddol 3

	Nifer y disgyblion	Canran y disgyblion	Canran sy'n cyrraedd Lefel 5
Disgyblion Blwyddyn 9 sy'n cael asesiad athro mewn Cymraeg Ail Iaith	1340	191/1340 (14.3%)	127/191 (66.5%)

Atodiad 6

CANLLAWIAU GWEITHREDU'R POLISI IAITH

Pwrpas y ddogfen hon yw cyflwyno crynodeb o'r disgwyliadau a osodir ar benaethiaid a'u hysgolion mewn perthynas â gweithredu'r Polisi Iaith.

Disgwylir i bob Pennaeth, mewn ymgynghoriad â'i staff a'r Corff Llywodraethu, adolygu Polisi Iaith yr ysgol yn rheolaidd.

Cyfrifoldeb y Pennaeth yw sicrhau llwyddiant y Polisi Iaith yn ei ysgol/hysgol; mae disgwyl i'r Pennaeth ddarparu arweiniad pendant er mwyn sefydlu dealltwriaeth drwyadl o nôd y polisi ac i sicrhau bod ymdrechion athrawon dosbarth yn cael eu hatgyfnerthu drwy sicrhau bod ethos Gymraeg a Chymreig priodol yn yr ysgol.

Diffinia'r Polisi Iaith ddatblygiad ieithyddol disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg wrth iddynt weithio tuag at y nôd o ddwyieithrwydd.

CARFAN	Diffiniad o'r math o ddisgybl yn ôl ei allu ieithyddol.
A	Disgyblion â hyfedredd oed-berthnasol cyfochrog yn y Gymraeg a'r Saesneg.
B	Disgyblion â hyfedredd priodol yn y Gymraeg ond sydd ag angen atgyfnerthu rhai agweddau ar eu sgiliau ieithyddol yn y Saesneg.
C1	Disgyblion â hyfedredd priodol yn y Saesneg ond sydd angen atgyfnerthu rhai agweddau ar eu sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg.
C2	Disgyblion â hyfedredd priodol yn y Saesneg ond sydd heb y sgiliau oed-berthnasol priodol yn y Gymraeg.
CH	Disgyblion heb sgiliau oed-berthnasol priodol yn y naill iaith na'r llall.

Disgwylir i bob ysgol ddarparu'n ofalus ar gyfer datblygu dwyieithrwydd pob disgybl trwy gynllunio ieithyddol bwriadus.

AMCANION CYFFREDINOL

Nôd y Polisi Iaith yw sicrhau bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yr un yw'r disgwyliad ar gyfer pob un o'r ysgolion.

Rhaid sicrhau darpariaeth addas i ganiatáu i bob disgybl ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Yn y cyd-destun hwn, mae angen parhau i feithrin sgiliau'r disgyblion hynny sy'n Gymry Cymraeg, a chyflwyno'r Gymraeg i'r rhai hynny sy'n ddysgwyr.

Disgwylir i holl sefydliadau addysg y sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd.

Er mai nôd cyffredinol y Polisi yw dwyieithrwydd, fe bwysir y fantol o blaid y Gymraeg. Mae hyn yn arbennig o wir yn y blynyddoedd cynnar er mwyn gosod sylfeini cadarn ar gyfer datblygiad pellach. Yn y Cyfnodau Allweddol eraill, mae angen strategaeth bendant er mwyn datblygu gafael y disgybl ar y Gymraeg.

AMCANION PENODOL

YSGOLION CYNRADD

Yn y Blynyddoedd Cynnar, mae angen gosod sylfaen gadarn yn y Gymraeg gan sicrhau bod disgyblion yn yr ardaloedd Seisnigedig yn cael y cyfle i ddysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl. Yn y cyd-destun hwn, mae angen gweithredu ar gynnwys y dogfennau 'Gosod Sylfeini Dwyieithrwydd yn y Blynyddoedd Cynnar' a 'Cynllunio Datblygiad Iaith yn yr ardaloedd Seisnigedig'.

Yn CA1, dylid adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cyfnod meithrin a derbyn drwy barhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg, a chychwyn ar y broses o ddatblygu eu sgiliau yn y Saesneg. Yn ymarferol, golyga hyn y bydd y mwyafrif o'r ysgolion yn cychwyn cyflwyno'r Saesneg yn ffurfiol yn y tymor olaf ar ddiwedd CA1. Y Gymraeg fydd iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd y cyfnod allweddol.

Yn CA2, dylid parhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith. Asesir cynnydd disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg ar ddiwedd y cyfnod allweddol.

Dylai pob ysgol sefydlu trefn ar gyfer tracio a mesur datblygiad ieithyddol y disgyblion yn ôl y Carfanau Iaith gyda'r nôd o sicrhau bod pob un yn symud tuag at Garfan A.

Yn ychwanegol, disgwylir i ysgolion sicrhau bod disgyblion sy'n ddysgwyr y Gymraeg yn CA2, yn dysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl, naill ai trwy fynychu Canolfan Iaith, neu trwy ddarpariaeth ddwys yn yr ysgol, er mwyn iddynt allu dilyn y cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg / ddwyieithog.

YSGOLION UWCHRADD

Yr un yw'r disgwyliad ar gyfer pob ysgol uwchradd.

Disgwylir i bob disgybl sydd wedi cyrraedd lefel 3+ ar ddiwedd CA2 ddilyn Cymraeg Iaith Gyntaf er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol. Yn ychwanegol, mae angen sicrhau bod pob disgybl yn astudio'r Gymraeg fel pwnc hyd at ddiwedd B11 ac yn cael asesiad yn y Gymraeg ar ddiwedd CA3 ac yn sefyll arholiadau allanol priodol ar ddiwedd CA4.

Rhaid adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cynradd trwy sicrhau bod pob disgybl yn parhau i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg trwy ddefnyddio'r ddwy iaith yn gyfrwng dysgu i amrywiol raddau. Yn y cyd-destun hwn, mae angen defnyddio'r wybodaeth a drosglwyddir am garfanau ieithyddol pob disgybl gan y Cydgysylltwyr Iaith Dalgylchol ar gyfer cynllunio ieithyddol bwriadus. Yn ymarferol, bydd angen gweithredu yn y modd a ganlyn.

Yn achos disgyblion carfanau A a B bydd cyfran helaeth o'u cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ymarferol bydd o leiaf 70% o'u profiadau cwricwlaidd yn y Gymraeg.

Yn achos dysgwyr sydd angen datblygu ac atgyfnerthu eu sgiliau yn y Gymraeg [carfan C1] cynllunir y cwricwlwm mewn modd fydd yn caniatáu iddynt ymarfer a datblygu'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm. Yn ymarferol bydd o leiaf 50% o'u profiadau cwricwlaidd yn y Gymraeg.

Yn achos lleiafrif y disgyblion sydd â sgiliau priodol yn y Saesneg ond sydd heb y sgiliau priodol yn y Gymraeg [carfan C2], rhoddir pwyslais ar gynllunio cyfleoedd ar draws y cwricwlwm i ddatblygu eu sgiliau llafar yn y Gymraeg. Mewn achosion o'r fath bydd o leiaf 30% o'u profiadau cwricwlaidd yn y Gymraeg.

Dylai pob ysgol sefydlu trefn ar gyfer tracio a mesur datblygiad ieithyddol y disgyblion yn ôl y Carfanau Iaith gyda'r nôd o sicrhau bod pob un yn symud tuag at Garfan A.

Yn ychwanegol, disgwylir i ysgolion sicrhau bod disgyblion sy'n ddysgwyr y Gymraeg ym mlynnyddoedd cynnar CA3 yn dysgu'r iaith gynted â phosibl, naill ai trwy fynychu'r Ganolfan Iaith neu trwy ddarpariaeth ddwys yn yr ysgol, er mwyn iddynt allu dilyn elfennau o'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg / ddwyieithog.

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	IONAWR 17 2013
TEITL:	CWYNION IAITH
AWDUR:	SWYDDOG CYDRADDOLDEB AC IAITH
PWRPAS YR ADRODDIAD	CYFLWYNO'R CWYNION DIWEDDARAF I'R PWYLLGOR.

1. CWYNION YN YMWNEUD A'R CYNGOR

DYDDIAD	CWYN	YMATEB.
Medi 2012	Cwyn ynglŷn â Datganiad Dyluniad a Mynediad uniaith Saesneg ynghlwm a chais cynllunio o'r Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol i Barc Cenedlaethol Eryri	Yr Adran yn datgan eu bod wedi anfon cyfarwyddid i ddeunydd o'r fath gael ei gynhyrchu yn y Gymraeg a'r Saesneg, boed hynny'n gais mewnol neu'n waith ymgynghorwyr ar ran yr Adran
Hydref 2012	Cwyn fod Canolfannau Hamdden yn cyflwyno tystysgrifau nofio uniaith Saesneg. D.S. Nid y Cyngor sy'n gyfrifol am y tystysgrifau, ond yr Amateur Swimming Association (ASA): Mae'r Adran wedi bod yn pwyso am dystysgrifau dwyieithog ers cryn amser, heb lwyddiant hyd yma	Yr Adran bellach wedi derbyn cadarnhad gan yr ASA y bydd tystysgrifau dwyieithog ar gael o'r Pasg 2013
Hydref 2012	Cwyn ynglŷn â ffurflen Dadleniad Cofnod Troseddol uniaith Saesneg yn cael eu hanfon allan	Mae'n debyg i'r camgymeriad yma ddigwydd am fod y ffurflenni ar fin cael eu newid, ac nad oedd cyflenwad digonol o'r fersiwn Cymraeg. Y sefyllfa wedi'i chywiro a chyflenwad Cymraeg digonol mewn stoc bellach
Tachwedd 2012	Cwyn ynglŷn â'r defnydd o'r ffurf "Caernarvon" ar arwydd ffordd ar bwys yr A55	Y camgymeriad wedi'i gywiro
Tachwedd 2012	Cwyn nad yw peiriant parcio newydd yn rhoi cyfarwyddyd electronig drwy gyfrwng y Gymraeg	Y Gwasanaeth yn nodi fod y peiriannau'n cynnig newid a dewis iaith

DYDDIAD	CWYN	YMATEB.
Tachwedd 2012	Cwyn ynglŷn ag enwau Saesneg yn ymddangos ar fapiau cynllunio	Mapiau'n cael eu cynhyrchu gan y system GIS, ond bydd haen Gymraeg digonol ar gael yn fuan

2. CWYNION YN YMWNEUD A CHYRFF ERAILL

DYDDIAD	CWYN	YMATEB/ DIWEDDARIAD.
Hydref 2012	2 gwyn gan aelodau o'r cyhoedd ynglŷn ag arwyddion gwallus tu allan i siop B&M ym Mangor	Cyfeirio'r cwynion at Gomisiynydd y Gymraeg
Hydref 2012	Cwyn/ ymholiad ynglŷn â threfniadau recriwtio a chyfweld Cartrefi Cymunedol Gwynedd	Cadarnhau gofynion Cynllun Iaith CCG; peidio a mynd a'r ymholiad ymhellach, gan ei fod yn seiliedig ar adroddiad ail-law
Tachwedd 2012	Cwyn ynglŷn â darpariaeth ieithyddol Cyngor Cymuned Beddgelert (Cymraeg yn unig)	Esbonio bod Cyngorau Cymuned yn annibynnol o'r Cyngor, a chyfeirio'r unigolyn at Gomisiynydd y Gymraeg am ragor o wybodaeth

3. DIWEDDARIAD

a) Bysus Padarn

Y Rheolwr ddim ar gael i gyfarfod hyd at y dyddiad cyhoeddi

b) System hidlo negeseuon

Yr Uned TG wedi canfod ffordd o gyflwyno'r negeseuon yn ddwyieithog, a bydd yn cael ei roi ar waith cyn gynted a phosib

c) Marchnadoedd a defnydd o'r iaith Gymraeg

Mae marchnadoedd Pwllheli, Caernarfon a Phorthmadog yn disgyn dan reolaeth y Cyngor drwy gytundeb. Mae'n ymddangos nad oes gyfeiriad at yr iaith Gymraeg yn yr amodau presennol (a luniwyd peth amser yn ôl). Mae'r Uned Gwarchod y Cyhoedd wedi cytuno i edrych ar osod amodau lle mae'r Cyngor yn cyfrannu at gostau hysbysebu.